

Ymgynghoriad

Newidiadau arfaethedig i'r Cynllun lawndal
Gwaed Heintiedig

Crynodeb

Mae'r Llywodraeth yn ymgynghori ar newidiadau arfaethedig i'r Cynllun Iawndal Gwaed Heintiedig ('y Cynllun') ar sail argymhellion a wnaed yn Adroddiad Ychwanegol yr Ymchwiliad i Waed Heintiedig. Bydd yr ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn cynorthwyo'r Llywodraeth i wneud unrhyw newidiadau pellach i'r Cynllun drwy ddeddfwriaeth.

Bydd yr ymgynghoriad yn rhedeg am 12 wythnos a chau ar 22 Ionawr 2026.

Ymatebwyr

Yn unol ag [egwyddorion ymgynghori'r llywodraeth](#), mae'r ymgynghoriad hwn ar agor i'r cyhoedd. Yn benodol, mae'r Llywodraeth yn gwahodd ymatebion gan y gymuned gwaed heintiedig a rhai gyda budd yn yr Ymchwiliad i Waed Heintiedig.

Preifatrwydd a Chyfrinachedd

Rydym yn cydnabod bod profiadau pobl yn y gymuned gwaed heintiedig yn breifat a sensitif ac nad ydynt wedi cael eu trin gydag urddas a pharch bob tro. O'r herwydd, bydd rhai pobl efallai'n poeni am sut y byddwn yn trin eu gwybodaeth bersonol.

Bydd unrhyw wybodaeth a rannwch fel rhan o'r ymgynghoriad hwn yn aros yn breifat a chyfrinachol. Byddwn yn trin pob gwybodaeth bersonol yn unol â deddfwriaeth diogelu data, gan gynnwys y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a Deddf Diogelu Data 2018. Mae Hysbysiad Preifatrwydd yr ymgynghoriad hwn yn rhoi mwy o fanylion ar sut y byddwn yn trin data.

Nid oes raid i neb sy'n ymateb i'r ymgynghoriad hwn rannu gwybodaeth bersonol am eu hiechyd neu amgylchiadau os nad ydynt eisiau. Gallai ymatebwyr ddewis rhannu rhai o'u profiadau ond nid y cwbl, neu aros yn gwbl ddiennw os yw hynny'n well ganddynt.

Ymholiadau

Dylech anfon unrhyw ymholiadau am yr ymgynghoriad hwn at:

ibconsultation@cabinetoffice.gov.uk

Ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad hwn

Bydd y Llywodraeth yn cyhoeddi ymateb i'r ymgynghoriad hwn ar gov.uk o fewn 12 wythnos i'w gau. Os nad yw'n bosib, am unrhyw reswm, cyhoeddi ymateb o fewn yr amser hwn, bydd eglurhad am yr oedi'n cael ei roi ar dudalen yr ymgynghoriad hwn ar gov.uk.

Rhagair Gweinidogol

Mae'r sgandal gwaed heintiedig wedi chwalu ac mae'n parhau i chwalu bywydau pobl a heintwyd, eu teuluoedd a chymunedau cyfan ar raddfa ddigynsail. Ni allai unrhyw iawndal ariannol byth wneud iawn am y dioddefaint a ddioddefir gan gymaint o bobl hyd heddiw.

Hoffwn ddiolch o galon i bawb a rannodd ac sy'n parhau i rannu eu profiad a'u harbenigedd gyda'r Ymchwiliad a gyda'r Llywodraeth. Mae eich mewnbwn yn amhrisiadwy i sicrhau bod y cynllun iawndal, sydd wedi'i gyflwyno gan yr Awdurdod Iawndal Gwaed Heintiedig (IBCA), yn rhoi cyfiawnder ar ôl aros mor hir i'r bobl a niweidiwyd gan y sgandal andwyol hwn.

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn cefnogi hyn ymhellach. Fel yr egluraf yn fy niweddariad i'r Senedd ym mis Gorffennaf, rydym eisoes yn gweithio i weithredu argymhellion [Adroddiad Ychwanegol yr Ymchwiliad i Waed Heintiedig](#) a gyhoeddwyd fis Gorffennaf. Fe wnaethom dderbyn rhai o'r argymhellion ar ddyluniad a strwythur y Cynllun yn syth ac rydym yn gweithredu'r newidiadau hyn cyn gynted ag y gallwn fel bod yr IBCA yn gallu bwrw ymlaen gyda thalu iawndal. Fodd bynnag, er mwyn penderfynu sut orau i symud ymlaen gyda'r argymhellion eraill, mae'n hollbwysig ein bod yn gweithio gyda a deall barn y gymuned gwaed heintiedig.

Dyna pam fod yr ymgynghoriad hwn yn gwahodd adborth a barn y cyhoedd, ac yn benodol y gymuned gwaed heintiedig, ar y newidiadau arfaethedig i'r Cynllun. Dyma eich cyfle i helpu i wneud i'r Cynllun weithio i'r bobl y cafodd ei ddylunio ar eu cyfer. Byddwn yn eich annog i gymryd amser i rannu eich persbectif a hoffwn eich sicrhau y byddwn yn ystyried pob ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn ofalus gyda'r difrifoldeb y mae'r mater hwn yn ei haeddu.

Mae'r Llywodraeth wedi gofyn am gyngor cychwynnol gan [Grŵp Arbenigol Technegol y Cynllun Iawndal Gwaed Heintiedig](#) (TEG) er mwyn datblygu cynigion mewn ymateb i Adroddiad Ychwanegol yr Ymchwiliad, a goleuo'r ymgynghoriad cyhoeddus hwn. Ar ôl i'r ymgynghoriad gau a byddwn wedi edrych ar yr holl ymatebion, byddwn mewn sefyllfa i wneud newidiadau terfynol i'r Cynllun. Bydd y newidiadau hyn wedi cael eu goleuo'n uniongyrchol gan ganfyddiadau'r ymgynghoriad hwn a chynghor y TEG. Bydd deddfwriaeth bellach yna'n cael ei chyflwyno er mwyn gweithredu'r newidiadau hyn yn y Cynllun.

Rydym yn awyddus iawn i'ch cynorthwyo i ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Dyna pam y bwriadwn ymgysylltu â'r gymuned gwaed heintiedig a'i chynrychiolwyr allweddol er mwyn annog ystod eang o ymatebion i'r ymgynghoriad. Ar ôl cau'r ymgynghoriad, byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion o fewn 12 wythnos.

Rwy'n bersonol ddiolchgar i bawb fydd yn rhoi adborth fel rhan o'r ymgynghoriad hwn. Rydym yn cydnabod pa mor daer yw'r mater hwn a bod y gymuned gwaed heintiedig yn awyddus iddo ddod i ben. Mae eich cyfraniadau adeiladol yn hanfodol i lunio cynigion fydd yn briodol ac y gellir eu gweithredu'n effeithiol. Edrychaf ymlaen at glywed gennych ac at weithio gyda'n gilydd i sicrhau bod ein hymateb yn cwrdd â'r disgwyliadau.

Rhagarweiniad

Rheswm dros ymgynghori

Yn [ei hymateb](#) i [Adroddiad Ychwanegol yr Ymchwiliad i Waed Heintiedig](#) yng Ngorffennaf 2025, ymrwymodd y Llywodraeth i ymgynghori'n gyhoeddus ar saith maes neilltuol o'r Cynllun lle'r oedd yr Ymchwiliad yn argymhell y gallai fod angen newidiadau. Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn helpu i oleuo unrhyw newidiadau pellach yn y meysydd hyn.

Nod y Llywodraeth yw cyflwyno unrhyw newidiadau deddfwriaeth o ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn cyn i'r Senedd dorri am wyliau'r haf yn 2026, ar ôl derbyn cymeradwyaeth seneddol.

Pwy ddylai ymateb i'r ymgynghoriad?

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei arwain gan Swyddfa Cabinet Llywodraeth y DU ac ar agor i'r cyhoedd. Yn enwedig, byddem yn croesawu unrhyw ymateb gan y gymuned gwaed heintiedig ac unrhyw bobl neu sefydliadau gyda budd yn yr Ymchwiliad i Waed Heintiedig.

Sut y defnyddiwn eich data?

Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd yn egluro sut y defnyddiwn eich data personol.

Ymateb i'r ymgynghoriad

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei redeg ar lwyfan arolwg ar-lein o'r enw SmartSurvey. Gallwch fynd i'r ymgynghoriad ar-lein drwy [weblink](#).

Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod unrhyw un sydd eisiau ymateb i'r ymgynghoriad yn gallu gwneud. Os na allwch, am unrhyw reswm, gwblhau'r ymgynghoriad drwy'r llwyfan ar-lein, e-bostiwch ibconsultation@cabinetoffice.gov.uk i ofyn am fersiwn dogfen Word o'r templed ymateb.

Ar ôl gorffen, dylech ddychwelyd eich ymateb i'r un cyfeiriad e-bost. Os hoffech anfon eich ymateb atom drwy'r post, dylech roi'r geiriau **'Newidiadau arfaethedig i'r Cynllun lawndal Gwaed Heintiedig'** ar yr ohebiaeth a'i hanfon at:

Tîm Ymateb i'r Ymchwiliad i Waed Heintiedig
Swyddfa'r Cabinet
Third Floor
1 Horse Guards Road
SW1A 2HQ

Rhaid i Swyddfa'r Cabinet dderbyn pob ymateb cyn y dyddiad cau. Ni allwn ystyried unrhyw ymateb a dderbyniwn ar ôl y dyddiad hwn.

Argymhellwn fod sefydliadau unigol yn cyflwyno un ymateb cyfunol.

Deall eich ffordd o gwmpas yr ymgynghoriad

Rhannwyd yr ymgynghoriad yn rhannau, pob un yn seiliedig ar wahanol faes o'r Cynllun y mae'r Ymchwiliad wedi argymhell y gallai fod angen newidiadau iddynt. Nid oes angen i chi gwblhau pob rhan o'r ymgynghoriad os dewiswch beidio neu os nad ydynt yn berthnasol i chi.

Mae'r ymgynghoriad yn dechrau gyda gwybodaeth gefndir am y Cynllun lawndal Gwaed Heintiedig cyn gofyn ychydig o gwestiynau gwybodaeth bersonol i'n helpu i ddeall ym mha gapasiti y mae'r person neu sefydliad yn ymateb. Nid oes raid i chi roi'r wybodaeth yma i ni os dewiswch beidio.

Mae rhai cwestiynau'n rhai dewis lluosog ac eraill yn gwahodd ymateb ysgrifenedig mwy manwl neu dystiolaeth ategol.

Cefndir y Cynllun Iawndal Gwaed Heintiedig

Dros saith mlynedd bu'r Ymchwiliad i Waed Heintiedig, dan arweiniad Syr Brian Langstaff, yn ymchwilio i'r amgylchiadau a arweiniodd at, ac a achoswyd gan, bobl yn derbyn gwaed (neu gynhyrchion gwaed) heintiedig gan Wasanaethau Iechyd Gwladol y DU, yn bennaf rhwng 1970 a 1998. Mae'r Ymchwiliad wedi ystyried effeithiau dinistriol hyn ar bobl a heintwyd ac ar eu hanwyliaid. Cyhoeddodd yr Ymchwiliad ei [Ail Adroddiad Interim](#) yn Ebrill 2023 gydag argymhellion ar gyfer dylunio cynllun iawndal ar gyfer dioddefwyr, ac yna ei [adroddiad terfynol](#) ym Mai 2024.

Ar 21 Mai 2024, fe wnaeth y Llywodraeth [gyhoeddi cynlluniau](#) ar gyfer y Cynllun Iawndal Gwaed Heintiedig (y Cynllun), a fyddai'n cael ei weithredu gan gorff hyd braich newydd o'r enw'r Awdurdod Iawndal Gwaed Heintiedig (IBCA). Fel rhan o'r cyhoeddiad hwn, cyflwynodd y Llywodraeth egwyddorion cyffredinol ar gyfer sut y byddai'r Cynllun yn gweithio. Sefydlwyd yr IBCA ym Mai 2024.

Bu'n rhaid i'r Llywodraeth wneud rheoliadau i sefydlu'r Cynllun yn ffurfiol ac i roi pwerau i'r IBCA i dalu iawndal. Daeth y gyfres gyntaf o reoliadau i rym yn Awst 2024 a gallai'r IBCA wedyn ddechrau dyfarnu iawndal 'craidd' i bobl oedd wedi cael eu heintio. Daeth ail gyfres o reoliadau i rym ym Mawrth 2025 gan roi'r holl bwerau oedd ei angen ar yr IBCA i wneud taliadau iawndal, gan gynnwys talu iawndal i'r bobl a effeithiwyd (fel partneriaid neu blant) a thalu iawndal atodol i bobl a heintwyd.

Ers sefydlu'r IBCA ym Mai 2024, mae wedi talu dros £1 biliwn mewn taliadau iawndal i ddioddefwyr gwaed heintiedig. Mae hyn ar ben y £1.2 biliwn a dalwyd eisoes mewn [taliadau interim](#). O hyn ymlaen, gall unrhyw un sy'n bwriadu hawlio iawndal gofrestru gyda'r IBCA.

Ym Mawrth 2025, cyhoeddodd yr Ymchwiliad i Waed Heintiedig [ei fwriad](#) i gyhoeddi adroddiad ychwanegol i ystyried pa mor amserol a digonol oedd ymateb y Llywodraeth o ran iawndal". Cyhoeddodd yr Ymchwiliad ei [Adroddiad Ychwanegol](#) yng Ngorffennaf 2025 a wnaeth nifer o argymhellion i'r IBCA a'r Llywodraeth ar ddyluniad a gweithredu'r Cynllun.

Yn ei [hymateb i'r Adroddiad Ychwanegol](#), derbyniodd y Llywodraeth nifer o argymhellion yr Ymchwiliad yn syth. O ran argymhellion eraill, ymrwymodd y Llywodraeth i lansio ymgynghoriad cyhoeddus i holi barn y gymuned gwaed heintiedig am sut orau i weithredu'r newidiadau oedd yn cael eu hargymell.

Gwybodaeth allweddol am y Cynllun Iawndal Gwaed Heintiedig

Mae'r Cynllun Iawndal Gwaed Heintiedig ("y Cynllun") bellach wedi'i sefydlu'n llawn mewn cyfraith. Rhoddir eglurhad hawdd ei ddeall o sut y mae'r Cynllun yn gweithio [yma](#), gyda thudalen gov.uk yn rhoi mwy o fanylion am bob agwedd ar y Cynllun [yma](#).

Mae'r rhan yma o'r ymgynghoriad yn rhoi gwybodaeth bwysig am sut y mae'r Cynllun yn gweithio'n barod. Dylai hyn helpu ymatebwyr i ystyried a ydynt yn teimlo bod y newidiadau a awgrymir yn syniad da a beth, os rhywbeth, y dylem ystyried ei newid.

Sut y mae'r Cynllun yn gweithio:

- Mae'r Cynllun yn darparu iawndal ariannol i ddioddefwyr y sgandal gwaed heintiedig.
- Mae'r Cynllun yn draws-DU ac yn cael ei weithredu gan gorff hyd braich annibynnol o'r enw'r Awdurdod Iawndal Gwaed Heintiedig (IBCA).
- Mae'r Cynllun ar agor i rai a **heintwyd yn union neu'n anuniongyrchol** a hefyd i rai a **effeithwyd** drwy eu perthynas â pherson a heintwyd.
- Mae dwy brif elfen i'r Cynllun: y cynnig craidd a'r cynnig atodol. Bydd pawb sy'n gymwys i dderbyn iawndal yn derbyn cynnig drwy'r cynnig craidd. Dim ond y llwybr hwn fydd ei angen ar y rhan fwyaf. Mae'r cynnig atodol ar gael mewn achosion eithriadol lle nad yw lefel yr iawndal a gynigiwyd drwy'r cynnig craidd yn adlewyrchu'r colledion ariannol neu gostau gofal y gallai person fod wedi eu hwynebu. **Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnig newidiadau i'r cynnig craidd ac atodol.**
- O dan y **cynnig craidd**, mae pum categori dyfarniad, pob un yn talu iawndal am y niwed a ddioddefodd rywun mewn gwahanol agweddau ar eu bywyd.
- Y categorïau dyfarniad, a beth y maen nhw'n talu iawndal amdano, yw: **Anaf** (anaf corfforol a meddyliol a thrallod emosiynol); **Effaith Gymdeithasol** (stigma ac ynysu cymdeithasol a achoswyd gan yr haint); **Ymreolaeth** (effaith yr haint ar fywyd personol, er enghraifft ar berthnasoedd); **Gofal** (costau gofal yn y gorffennol a'r dyfodol); a **Cholled Ariannol** (colledion ariannol yn y gorffennol a'r dyfodol, er enghraifft colli enillion). **Nid yw'r ymgynghoriad hwn yn cynnig ychwanegu na dileu unrhyw gategorïau dyfarniad ond yn bwriadu newid gwerthoedd rhai categorïau dyfarniad.**
- Cyfrifir iawndal y cynnig craidd yn defnyddio cyfraddau talu penodol o'r enw tariffau. Defnyddir amgylchiadau personol pobl (fel pa mor ddifrifol oedd eu haint, neu eu perthynas â rhywun a effeithiwyd) i gyfrifo pa dariff iawndal y dylent ei ddefnyddio. Mae tariffau'n lleihau'r wybodaeth sydd angen i hawlyddion ei darparu ac yn cynorthwyo i dalu iawndal yn gynt. **Cafodd tariffau eu hargymell gan yr Ymchwiliad i Waed Heintiedig ac maen nhw'n sylfaenol i sut y mae'r Cynllun yn gweithio – nid yw'r ymgynghoriad yn cynnig newid sut y mae'r Cynllun yn gweithio yn y cyswllt hwn. Ond mae'n cynnig newidiadau i werthoedd rhai tariffau.**

- Mewn achosion eithriadol, mae dyfarniadau iawndal uwch ar gael drwy'r **cynnig atodol** ar gyfer y categorïau dyfarniad Ymreolaeth, Gofal a Cholled Ariannol.
- Gall person ddewis derbyn eu hiawndal fel **cyfandaliad neu gyfres o daliadau rheolaidd** dros 5, 10 neu 25 mlynedd.
- Mae iawndal sy'n cael ei dalu drwy'r Cynllun wedi'i eithrio o dreth incwm, treth enillion cyfalaf a threth etifeddiaeth ac nid yw iawndal yn effeithio ar gymhwyso am fudd-daliadau prawf modd. **Nid yw'r ymgynghoriad hwn yn cynnig newid yr eithriadau hyn.**
- Nid yw derbyn iawndal drwy'r Cynllun yn golygu nad oes gan berson hawl i fynd i'r llys i hawlio iawndal.
- Yn achos pobl a dderbyniodd ddiagnosis o haint cymwys cyn 1 Ebrill 2025, bydd y Cynllun yn aros ar agor i geisiadau tan 31 Mawrth 2031. Yn achos pobl a dderbyniodd ddiagnosis ar ôl 1 Ebrill 2025, bydd y Cynllun yn aros ar agor i geisiadau am 6 mlynedd o ddyddiad eu diagnosis.

Grŵp	Arbenigol	Technegol
------	-----------	-----------

Yn Ionawr 2024 sefydlodd y Llywodraeth 'Grŵp Arbenigol Ymateb i'r Ymchwiliad i Waed Heintiedig' i roi cyngor technegol annibynnol i gynorthwyo'r Llywodraeth i ddylunio'r Cynllun. Cadeiriwyd y Grŵp gan yr Athro Syr Jonathan Montgomery ac roedd yn cynnwys arbenigwyr cyfreithiol, clinigol ac actiwaraid, wedi eu cynorthwyo lle bo angen gan arbenigwyr gofal cymdeithasol.

Yn dilyn Adroddiad Ychwanegol yr Ymchwiliad, gofynnodd y Llywodraeth am gyngor technegol pellach ar wneud y newidiadau arfaethedig. Mae'r cyngor hwn wedi'i roi gan ['Grŵp Arbenigol Technegol y Cynllun Iawndal Gwaed Heintiedig'](#) (TEG) a sefydlwyd ym Medi 2025. Mae aelodaeth y grŵp hwn yn cynnwys aelodau o'r Grŵp Arbenigol blaenorol, a phum arbenigwr ychwanegol mewn meddyginiaeth trallwysu gwaed, haematoleg, seiciatreg a seicoleg. Profwyd enwau'r aelodau newydd gyda'r gymuned cyn eu penodi. Mae'r TEG wedi rhoi cyngor i'r Llywodraeth ar rai o argymhellion yr Ymchwiliad. Yn yr achosion hyn, mae'r ddogfen hon yn egluro beth oedd cyngor y TEG, fel y gall ymatebwyr weld sut yw'r arweiniad at ddatblygu'r cynigion a chwestiynau perthnasol.

Amdanoch Chi

Mae'r cwestiynau canlynol yn gofyn am wybodaeth bersonol sylfaenol am yr ymatebydd. I wybod mwy am sut y bydd data personol yn cael ei drin, dylid darllen yr Hysbysiad Preifatrwydd.

1. Ym mha gapasiti ydych chi'n ymateb i'r ymgynghoriad hwn?

- Rwy'n berson sy'n byw, neu wedi byw, gyda haint (o ganlyniad i haint anuniongyrchol neu driniaeth gyda gwaed neu gynhyrchion gwaed heintiedig)
 - Rwy'n berson a effeithiwyd (o ganlyniad i haint anuniongyrchol neu driniaeth a dderbyniodd person arall gyda gwaed neu gynhyrchion gwaed heintiedig)
 - Rwy'n berson sy'n byw gyda neu a gafodd haint yn y gorffennol oherwydd gwaed neu gynhyrchion gwaed heintiedig **a hefyd** wedi cael fy effeithio oherwydd haint person arall
 - Nid wyf yn berson wedi'i heintio nac wedi fy effeithio, ond mae gennyf fudd yn yr Ymchwiliad i Waed Heintiedig
 - Yr un o'r uchod
 - Gwell gen i beidio â dweud
2. Os byddwch yn ymateb fel person sydd neu a gafodd eich heintio, a wnewch chi gadarnhau natur eich haint
- HIV
 - Hepatitis C neu B Aciwt (h.y. lle y parodd yr haint am lai na 6 mis)
 - Hepatitis C neu B Cronig (h.y. lle y parodd yr haint am fwy na 6 mis)
 - Haint ar y cyd (HIV a Hepatitis C a / neu Hepatitis B)
 - Haint ar y cyd (Hepatitis C a Hepatitis B)
 - Gwell gen i beidio â dweud
3. Os ateboch 'Yr un o'r uchod' i gwestiwn 1, a wnewch chi gadarnhau natur eich budd yn yr Ymchwiliad
- Sefydliad elusenol
 - Cynrychiolydd Cyfreithiol Cydnabyddedig
 - Ymgyrchydd
 - AS / Swyddfa AS
 - Gweithiwr iechyd proffesiynol
 - Gwell gen i beidio â dweud
 - Arall
 - A wnewch chi enwi'r sefydliad yr ydych yn ymateb ar eu rhan

Rhan 1 – Y Trefniant Categori Arbennig a'i Drefniadau Cyfwerth

Crynodeb

Ers 2017 mae rhai pobl heintiedig a'u partneriaid mewn profedigaeth wedi derbyn taliadau cymorth rheolaidd gan y Cynlluniau Cymorth Gwaed Heintiedig (IBSS) yn Lloegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon. Gall unrhyw un sy'n derbyn y taliadau cymorth hyn ac sydd

eisiau parhau i'w derbyn am weddill eu bywyd drefnu i'w derbyn fel rhan o'u cynnig iawndal cyffredinol gan yr Awdurdod Iawndal Gwaed Heintiedig (IBCA).

Mae'r IBSS yn cynnig math penodol o daliad i bobl gyda Hepatitis C cronig sy'n profi effeithiau sylweddol ar eu bywyd o ddydd i ddydd o ganlyniad i'w haint neu'r driniaeth a dderbyniwyd ar gyfer yr haint.

Gelwir y taliad hwn yn 'Drefniant Categori Arbennig' (SCM) yn Lloegr, neu'n derm cyfwerth yn y gwledydd eraill. Mae gan bob IBSS feini prawf asesu fymryn yn wahanol ynghyd â'r dull o asesu pobl ar gyfer y taliad. Gwneir y taliad i helpu pobl i ymdopi'n well â'u bywyd pob dydd ar ôl haint, os oes angen mwy o gymorth ariannol arnynt i wneud hynny na'r lefel arferol o daliad ariannol.

Enwau pob un o'r Cynlluniau Cymorth yw:

- Trefniant Categori Arbennig Hepatitis (Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Lloegr)
- Hepatitis C 'Effeithiwyd yn Ddifrifol' (Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig yr Alban)
- Hepatitis C Cam 1 a Mwy (Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru)
- Hepatitis C Cam 1 Taliadau Estynedig (Cynllun Taliadau Gwaed Heintiedig Gogledd Iwerddon)

Mae amryw o bethau sy'n gwneud rhai pobl gyda Hepatitis C cronig yn gymwys i dderbyn y taliad hwn gan y cynlluniau cymorth. Y rhain yn bennaf yw: cyflyrau awto-imiwnedd yn gysylltiedig â thriniaeth gyda meddyginiaeth o'r enw interferon; pryderon iechyd meddwl; neu flinder cronig.

Yn y rhan yma, defnyddir y term 'SCM' i gyfeirio at y Trefniant Categori Arbennig yn Lloegr, a'r holl daliadau cyfwerth yn y gwledydd datganoledig.

Er nad yw'r IBCA wedi agor ceisiadau ar gyfer y cynnig atodol eto, eglurir sut y bydd yn gwneud hyn yn Rheoliadau 2025. Ar hyn o bryd mae'r Cynllun wedi'i ddylunio fel y bydd pobl sy'n gallu dangos i'r IBCA eu bod yn gymwys am SCM oherwydd bod eu triniaeth interferon wedi gwneud iddynt ddioddef o gyfres benodedig o gyflyrau awto-imiwnedd, yn derbyn dyfarniad Cyflwr Iechyd Difrifol. Ar hyn o bryd nid yw'n rhoi dyfarniad Cyflwr Iechyd Difrifol i bobl sy'n gymwys am SCM am unrhyw reswm arall.

Roedd Adroddiad Ychwanegol yr Ymchwiliad yn cynnwys argymhellion i newid hyn.

Yn y bennod hon, disgrifiwn sut y bwriadwn wneud hyn drwy wneud mwy o bobl yn gymwys am y dyfarniad Cyflwr Iechyd Difrifol.

Argymhelliad yr Ymchwiliad

Argymhelliad Adroddiad Ychwanegol yr Ymchwiliad ar gyfer SCM yw:

“Bod y Llywodraeth yn ailystyried a ddylai barhau i wrthod, fel y gwnaeth yn Chwefror 2025, argymhellion Syr Robert Francis Cwnsler y Brenin, a chyngor y Grŵp Arbenigol Ymateb i'r Ymchwiliad i Waed Heintiedig yn Awst 2024, a dderbyniwyd yn ffurfiol ar y pryd gan y Llywodraeth, y dylid cyflwyno (fel un o chwe grŵp effaith iechyd a fyddai'n cyfiawnhau derbyn dyfarniad cyflwr iechyd difrifol) y canlynol ar gyfer pobl a heintiwyd â Hepatitis B a Hepatitis C:

Hepatitis C o fath arall yn gysylltiedig ag anhwylderau hepatic ychwanegol yn arwain at anabledd difrifol hirdymor. Mae hyn yn cynnwys rhai a asesir ar hyn o bryd fel y categori canlynol ar IBSS:

- Trefniant Categori Arbennig Hepatitis (Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Lloegr)*
- Hepatitis C 'Effeithiwyd yn Ddifrifol' (Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig yr Alban)*
- Hepatitis C Cam 1 a Mwy (Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru)*
- Hepatitis C Cam 1 Taliadau Estynedig (Cynllun Taliadau Gwaed Heintiedig Gogledd Iwerddon)”*

Beth y mae'r argymhelliad hwn yn ei olygu

Roedd yr Ymchwiliad yn argymhell bod y Llywodraeth yn ailystyried y penderfyniad a wnaeth pan gyflwynodd Reoliadau 2025 ar gyfer sut y mae'r Cynllun yn talu iawndal i bobl sy'n derbyn SCM ar hyn o bryd. Gofynnwyd i'r Llywodraeth edrych eto ar y penderfyniad i gyfyngu'r dyfarniad Cyflwr Iechyd Difrifol ddim ond i bobl sy'n derbyn SCM oherwydd cyflyrau awto-imiwnedd penodol a achoswyd gan driniaeth interferon.

Ymateb y Llywodraeth

Yn ymateb y Llywodraeth i Adroddiad Ychwanegol yr Ymchwiliad yng Ngorffennaf 2025, roeddem yn cydnabod y pryderon y tynnodd lawer yn y gymuned gwaed heintiedig sylw'r Ymchwiliad atynt am sut y mae'r Cynllun yn talu iawndal i bobl am yr effeithiau a fyddai'n eu gwneud yn gymwys am SCM neu daliad cyfwerth.

Rydym wedi **derbyn** argymhelliad yr Ymchwiliad y dylai'r dyfarniad Cyflwr Iechyd Difrifol gydnabod pawb a fyddai'n cwrdd â'r meini prawf i dderbyn taliadau SCM. Felly o hyn ymlaen bydd pawb sy'n derbyn taliadau SCM drwy'r Cynlluniau Cymorth Gwaed Heintiedig ar hyn o bryd yn awtomatig gymwys am ddyfarniad Cyflwr Iechyd Difrifol.

Dywedasom hefyd y byddem yn ymgynghori ar sut y dylid sefydlu cymhwysedd ar gyfer pobl sydd heb gofrestru gyda chynllun IBSS ond sy'n profi'r un effaith ar eu bywyd dydd i ddydd, am yr un rhesymau, fel eu bod hwythau hefyd yn dod yn gymwys am ddyfarniad.

Grŵp Arbenigol Technegol

Roedd y Grŵp Arbenigol Technegol (TEG) wedi rhoi cyngor ar y ddau faes canlynol:

Meini prawf asesu SCM

Mae angen i bobl fyw sydd heb gofrestru â chynllun IBSS (fel rhai gyda Hepatitis B) fod yn gallu gwneud cais am ddyfarniad Cyflwr Iechyd Difrifol gan yr IBCA. Cynigiwn mai'r ffordd decaf o wneud hyn yw drwy atgynhyrchu'r broses asesu SCM bresennol.

- Mae gan y pedwar cynllun cymorth feini prawf asesu tebyg ond fymryn yn wahanol. Mae'n bwysig bod y Cynllun yn trin pob ymgeisydd yn yr un ffordd. **Mae'r TEG wedi cyngori y dylai'r Cynllun ddefnyddio'r broses asesu a ddefnyddir ar hyn o bryd gan Gynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Lloegr (EIBSS).** Mae hyn oherwydd y bydd y rhan fwyaf o ymgeiswyr cofrestredig ar gynllun IBSS (tua 80%) wedi cael eu hasesu'n defnyddio meini prawf EIBSS.
- Gyda phroses asesu EIBSS ar gyfer SCM, mae 2-3 o aseswyr meddygol yn adolygu'r dystiolaeth. Cyflwynir y dystiolaeth gan y person heintiedig eu hunain, a'r gweithwyr iechyd cofrestredig yn y DU sy'n eu trin. Pan fydd yr aseswyr meddygol yn adolygu'r dystiolaeth, byddant yn ystyried a gafodd haint (neu driniaeth) y person effaith sylweddol a hirdymor ar eu gallu i wneud eu gweithgareddau a'u gwaith dydd i ddydd.

Lefel y dyfarniad
Mae'r **TEG** hefyd wedi rhoi cyngor ar lefel yr iawndal y dylai pobl sy'n gymwys am ddyfarniad Cyflwr Iechyd Difrifol o ganlyniad i'r cynnig newydd hwn ei dderbyn. I wneud hyn, maen nhw wedi edrych eto ar y meini prawf a fyddai'n gwneud rhywun yn gymwys am SCM ac wedi ystyried pa effaith fyddai'r meini prawf hynny'n ei gael ar ofynion gofal rhywun, a gallu parhau i weithio. Dyma ddau gategori dyfarniad y dyfarniad Cyflwr Iechyd Difrifol.

Disgrifir y lefelau dyfarniad hyn fel rhan o'r cynnig.

Cynnig

Ar sail cyngor gan y TEG, cynigiwn wneud mwy o bobl, sy'n anghymwys ar hyn o bryd, yn gymwys am y dyfarniad:

- Bydd pobl heintiedig neu ystadau pobl heintiedig sy'n derbyn SCM neu daliadau cyfwerth (neu a dderbyniodd y taliadau cyn iddynt farw) yn **gymwys yn awtomatig** am y dyfarniad hwn.
- Bydd pobl heintiedig byw sydd ddim yn derbyn SCM neu daliadau cyfwerth gan IBSS ar hyn o bryd yn **gallu gwneud cais i gael eu hasesu gan yr IBCA** yn erbyn meini prawf asesu EIBSS ac os byddent yn bodloni'r meini prawf, yn derbyn y dyfarniad.

Byddai'r dyfarniad yn rhoi mwy o iawndal am golled ariannol, ac i dalu am anghenion gofal. Mae'r cynnig felly'n golygu y byddai'r Cynllun yn rhoi mwy o gydnabyddiaeth i bobl oedd yn derbyn SCM, neu bobl sy'n bodloni'r un meini prawf, ar ben eu dyfarniad iawndal craidd.

Cymhwysedd arfaethedig

Oherwydd bod y dyfarniadau iawndal craidd sydd ar gael i bobl a heintwyd â HIV eisoes yn talu iawndal am effaith eu haint ar eu bywyd dydd i ddydd, bwriad y cynnig hwn yw **gwneud mwy o bobl a heintwyd â Hepatitis B a / neu Hepatitis C yn gymwys am iawndal drwy'r dyfarniad Cyflwr Iechyd Difrifol.**

Cynigiwn fod y cohortau canlynol o bobl yn gymwys:

Pobl fyw ac wedi marw wedi eu heintio ac wedi cofrestru â chynllun IBSS: byddai'r holl bobl a heintwyd ac a gofrestrodd â chynllun IBSS ac yn derbyn un o'r mathau canlynol o daliadau'n dod yn gymwys yn awtomatig am y dyfarniad Cyflwr Iechyd Difrifol:

- Trefniant Categori Arbennig Hepatitis (Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Lloegr)
- Hepatitis C 'Effeithiwyd yn Ddifrifol' (Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig yr Alban)
- Hepatitis C Cam 1 a Mwy (Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru)
- Hepatitis C Cam 1 Taliadau Estynedig (Cynllun Taliadau Gwaed Heintiedig Gogledd Iwerddon)

Pobl fyw heintiedig heb gofrestru â chynllun IBSS: cynigiwn y dylai pobl heintiedig oedd heb gofrestru â chynllun IBSS fod yn gallu gwneud cais am y dyfarniad hwn. Byddai angen i bobl yn yr amgylchiadau hyn gyflwyno ystod o ddogfennau a thystiolaeth feddygol fel y gallai'r IBCA asesu eu cymhwysedd. Byddai angen cael aseswyr meddygol i adolygu'r ceisiadau.

Ni chynigiwn y byddai **ystadau pobl heintiedig oedd heb gofrestru â chynllun IBSS** yn gymwys.

Mae'r SCM a thaliadau cyfwerth a wneir gan yr IBSS ar gael i bobl heintiedig byw'n unig. Mae hyn oherwydd bod y meini prawf asesu a ddefnyddir gan bob cynllun IBSS wedi eu dylunio i asesu'r effaith y mae haint person yn ei gael ar eu bywyd ar hyn o bryd, a'r effaith debygol arnynt yn y dyfodol. Nid ydynt wedi eu dylunio i edrych yn ôl ar beth ddigwyddodd yn y gorffennol na barnu faint o effaith y cafodd yr haint ar rywun, ac am ba hyd. Cynigiwn felly na fyddai'r dyfarniad Cyflwr Iechyd Difrifol, sy'n seiliedig ar feini prawf asesu'r IBSS, ar gael i ystadau pobl nad oeddent wedi cofrestru â chynllun IBSS.

Cyfrifo dyfarniadau

Gwerthoedd dyfarniad:

- **Dyfarniad Colled Ariannol** – byddai'r dyfarniadau Colled Ariannol yn cynyddu i **£17,794 neu £20,760 y flwyddyn**. Mae dau wahanol werth ar gael oherwydd y ffordd y mae dyfarniadau colled ariannol yn newid ar ôl cyflwyno triniaeth effeithiol ar gyfer haint. Mae'r gwerthoedd wedi eu cyfrifo ar y sail bod pobl sy'n gymwys am SCM yn gallu gweithio llawer llai na llawn amser (tua un diwrnod a hanner neu ddau ddiwrnod yr wythnos ar gyfartaledd dros flwyddyn).

Ein cynnig yw rhagdybio bod capasiti enillion pobl a fyddai'n gymwys am ddyfarniad Cyflwr Iechyd Difrifol fel rhan o'r grŵp newydd hwn yn cael ei leihau o 70% cyn i driniaeth effeithiol

fod ar gael ar gyfer eu haint, ac o ychydig yn llai (60%) ar ôl cyflwyno triniaeth effeithiol. Mae hyn ar sail cyngor gan y TEG.

Cynigiwn hefyd os bydd rhywun yn dod, neu os daethant, yn gymwys am SCM yn y flwyddyn y maen nhw'n cyrraedd oed ymddeol (66 oed), na fyddant yn derbyn unrhyw iawndal ychwanegol am golled ariannol o ganlyniad i fod yn gallu ennill llai. Os yw rhywun yn dod, neu os daethant, yn gymwys am SCM cyn y flwyddyn y maen nhw'n cyrraedd oed ymddeol, bydd swm blynyddol eu dyfarniad colled ariannol uwch yn lleihau o 50% ar ôl cyrraedd eu blwyddyn ymddeol. Mae'r ddau gynnig yma'n gyson â sut y mae'r dyfarniad yn gweithio i bob ymgeisydd cymwys arall.

- **Dyfarniad Gofal** – byddai lefel dyfarniad gofal yn £5,460 y flwyddyn, os na fyddai ar y lefel yma'n barod neu'n uwch, i dalu am ofal domestig ac ad-hoc am oes. Mae hyn yr un faint o iawndal y mae'r Cynllun yn ei roi i bobl sydd angen gofal 'lefel 1' (mae pump o wahanol lefelau gofal).

Y cynnig yw bod pobl sy'n gymwys am ddyfarniad Cyflwr Iechyd Difrifol fel rhan o'r grŵp newydd hwn yn derbyn iawndal gofal ychwanegol cyfwerth â 6 awr yr wythnos o gymorth domestig a gofal ad-hoc. Mae hyn ar sail cyngor gan y TEG bod anghenion gofal o dan feini prawf y SCM fel arfer yn ymwneud â gallu gwneud gweithgareddau domestig dydd i ddydd fel coginio, glanhau a siopa. Os oes gan rywun fwy nag un cyflwr yn eu cymhwyso am ddyfarniad Cyflwr Iechyd Difrifol, maen nhw'n derbyn y swm mwyaf y maen nhw'n gymwys i'w dderbyn a chynigiwn wneud yr un peth yn yr amgylchiadau hyn hefyd.

Dyddiadau dyfarniad: Mae'n bwysig cael dyddiad dechrau ar gyfer y dyfarniad oherwydd mae'n cael ei ddefnyddio i gyfrifo gwerth y dyfarniad.

Nid yw'r meini prawf sy'n gwneud rhywun yn gymwys am SCM neu gyfwerth yn dod gyda dyddiad diagnosis neu 'farcwr' clinigol penodol a allai gael ei ddefnyddio i benderfynu ar ddyddiad dechrau wedi'i deilwrio i bob person. Yn lle hynny, mae'r asesiadau a wneir i benderfynu a ddylai rhywun dderbyn un o'r taliadau hyn yn edrych ar yr effaith gyffredinol y mae haint neu driniaeth yn ei gael ar berson ar y pryd ac yn y dyfodol.

O'r herwydd, cynigiwn ddefnyddio'r dyddiadau canlynol ar gyfer dechrau dyfarniad:

- Yn achos pobl a gofrestrodd ag IBSS ac yn derbyn SCM neu daliad cyfwerth, y dyddiad y cawsant eu hasesu ar gyfer y taliad hwn gan eu Cynllun Cymorth.
- Yn achos pobl heb gofrestru ag IBSS, byddai'r dyfarniad yn cael ei gyfrifo o 2024, gan gynnwys y flwyddyn hon. Mae'r dyddiad cyson yma'n sicrhau na fyddai anfantais i bobl y byddai eu hawliad yn cael ei asesu nes ymlaen gan yr IBCA.

Cwestiynau

1. A ddylai pobl heintiedig a aseswyd i fod yn gymwys am SCM a'i daliadau cyfwerth gan un o'r Cynlluniau Cymorth Gwaed Heintiedig gymhwyso'n awtomatig am y dyfarniad hwn?
2. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gyflwyno dyfarniad Cyflwr Iechyd Difrifol SCM i bobl heintiedig byw sydd ddim wedi cofrestru ag IBSS ar hyn o bryd?

I'ch atgoffa, i fod yn gymwys am y dyfarniad hwn, byddai angen i bobl gael eu hasesu ar sail tystiolaeth debyg i, a seiliedig ar, broses asesu SCM y Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig presennol yn Lloegr. Am y rheswm hwn, ni fyddai'r dyfarniad ar gael i ystadau pobl na fyddai wedi cofrestru ag IBSS.

3. Ydych chi'n meddwl bod y cynnig i roi mwy o iawndal am golled ariannol i bobl a fyddai'n gymwys am y dyfarniad – ar y sail y byddai eu capasiti i weithio 60-70% yn llai (mewn geiriau eraill eu bod yn gallu gweithio llai na hanner yr wythnos waith 5 diwrnod) – yn deg?
4. Ydych chi'n meddwl bod y cynnig i dalu iawndal am 6 awr o gymorth domestig a gofal ad hoc yr wythnos i bobl a fyddai'n gymwys am y dyfarniad yn deg? Beth, os o gwbl, allai rhywun fod wedi ei brofi fel bod angen mwy na 6 awr o'r math yma o ofal yr wythnos arnynt?

Rhan 2 – Niwed seicolegol difrifol

Crynodeb

Mae'r rhan fwyaf o ddioddefwyr y scandal gwaed heintiedig wedi dioddef niwed seicolegol oherwydd yr hyn a ddigwyddodd iddynt. I rai pobl, mae'r niwed yma wedi bod yn arbennig o ddifrifol gan effeithio'n sylweddol ar allu gweithio neu ofalu amdanynt eu hunain.

Ar hyn o bryd mae'r Cynllun yn talu iawndal am niwed seicolegol drwy'r cynnig craidd a'r cynnig atodol gan ddibynnu ar y math o niwed a pha mor ddifrifol ydyw.

- Mae'r **cynnig craidd** yn talu iawndal am niwed seicolegol mewn tair ffordd. Mae'r dyfarniadau Anaf, Ymreolaeth ac Effaith Gymdeithasol yn talu iawndal am ieuchyd meddwl gwael, trallod emosiynol, ac effeithiau stigma ac ynysu cymdeithasol a achoswyd gan haint.
- Gyda'r **cynnig atodol**, mae'r dyfarniad Cyflwr Iechyd Difrifol yn cynnig talu iawndal ychwanegol os yw rhywun wedi cael diagnosis o anhwylder seiciatrig difrifol sydd wedi achosi dioddefaint mwy na'r hyn sydd wedi cael ei gydnabod a'i ddigolledu fel rhan o'u cynnig craidd. I gymhwyso am y dyfarniad Cyflwr Iechyd Difrifol, rhaid i berson heintiedig gyflwyno adroddiad gan seiciatrydd ymgynghorol yn cadarnhau eu diagnosis ac yn dangos bod y diagnosis wedi'i gysylltu i'w haint. Rhaid iddynt hefyd ddangos tystiolaeth bod angen triniaeth arbenigol arnynt (er enghraifft, chwe mis o ofal eilaidd dan law ymgynghorydd, cael eu derbyn fel claf mewnol neu gadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl).

Rydym wedi ymrwymo i ymgynghori ar lefel y niwed seicolegol, a'r dystiolaeth sydd ei hangen i ddangos hyn, sy'n gwneud rhywun yn gymwys am ddyfarniad Cyflwr Iechyd Difrifol.

Yn ei Adroddiad Ychwanegol, dywedodd yr Ymchwiliad fod y gofynion tystiolaeth presennol ar gyfer y dyfarniad Cyflwr Iechyd Difrifol yn rhy uchel, ac y dylai **'barn ar y cyd'** fod yn ddigon i ddangos cymhwyster ar gyfer y dyfarniad hwn.

Bydd angen i ymatebwyr ddeall beth y mae'r term hwn yn ei feddwl er mwyn gallu ystyried y cynigion a'r cwestiynau yn y rhan yma'n llawn. 'Barn ar y cyd' yw disgrifiad o'r anawsterau ieuchyd meddwl y mae rhywun yn ei wynebu. Mae'n cael ei lunio rhwng claf a'r gweithiwr seicolegol proffesiynol sy'n eu trin. Fe'i defnyddir i helpu i dywys triniaeth rhywun.

Mae'r Grŵp Arbenigol Technegol (TEG) wedi cynghori nad yw barn ar y cyd yn ffordd ddibynadwy o fesur difrifoldeb niwed seicolegol y mae rhywun yn ei ddioddef, na sut y mae'n effeithio ar eu gallu i weithio neu ofalu amdanynt eu hunain. Defnyddiodd y TEG seicolegwyr oedd yn rhan o'r Gwasanaeth Seicolegol Gwaed Heintiedig (IBPS) fel rhan o'u gwaith ar yr argymhelliad hwn, a chyn rhoi eu cyngor i'r Llywodraeth. Yn lle hynny, mae'r TEG wedi cynghori y gallai niwed seicolegol difrifol gan bobl wedi eu heintio naill ai â Hepatitis B neu C fod yn rhan o'r newidiadau arfaethedig i'r dyfarniad Cyflwr Iechyd

Difrifol ar gyfer pobl gyda SCM (tud. 11-16). **Os nad ydych wedi darllen y rhan yma o'r ymgynghoriad eto, byddwch efallai eisiau ei ddarllen cyn darllen y rhan yma.**

Mae'r rhan yma o'r ymgynghoriad yn gofyn cwestiynau am y cynnig hwn i weld a fyddai'r newidiadau arfaethedig yn cynnwys yr effaith ar iechyd meddwl, o ganlyniad i haint neu driniaeth ar gyfer haint, yn llawn.

Argymhelliad **yr** **Ymchwiliad**

Yr argymhelliad a wneir yn Adroddiad Ychwanegol yr Ymchwiliad ar gyfer niwed seicolegol difrifol yw:

"Bod dull y Gwasanaeth Seicolegol Gwaed Heintiedig yn cael ei fabwysiadu fel bod diagnosis gan weithiwr seiciatrig proffesiynol a barn ar y cyd yr holl weithwyr seicolegol a chwnsela cymwysedig yn cael eu derbyn fel tystiolaeth ddigonol o niwed seicolegol difrifol ac y dylai tystiolaeth o'r fath gymhwysu person ar gyfer dyfarniad Cyflwr Iechyd Difrifol atodol heb fod hefyd angen dangos cyfnod o driniaeth iechyd meddwl eilaidd dan law ymgynghorydd neu asesiad / triniaeth fel claf mewnol."

Beth y mae'r argymhelliad hwn yn ei olygu

Roedd yr Ymchwiliad yn argymhell bod y Llywodraeth yn edrych eto ar y dystiolaeth sydd ei hangen i gael dyfarniad Cyflwr Iechyd Difrifol am anhwylderau seiciatrig difrifol. Yn benodol, roedd yr Ymchwiliad yn argymhell derbyn 'barn ar y cyd' fel tystiolaeth o niwed seicolegol difrifol.

Ymateb y llywodraeth

Wrth ymateb i Adroddiad Ychwanegol yr Ymchwiliad yng Ngorffennaf 2025, roeddem yn derbyn bod angen newid ac yn ymrwymo i ymgynghori â'r cyhoedd ar lefel y niwed seicolegol a fyddai'n gwneud rhywun yn gymwys am y dyfarniad Cyflwr Iechyd Difrifol. Cytunom hefyd i ymgynghori ar ba dystiolaeth ddylai fod ei hangen i ddangos cymhwysedd.

Cyngor y Grŵp Arbenigol Technegol

Mae'r TEG wedi gweithio'n uniongyrchol â'r Gwasanaeth Seicolegol Gwaed Heintiedig (IBPS). Mae'r rhan yma o'r ymgynghoriad yn crynhoi eu cyngor a sut wnaeth y cyngor oleuo barn yr IBPS am **fanteision a chyfyngiadau barn ar y cyd yng nghyd-destun y cynllun iawndal.**

Mae'r rhan yma'n crynhoi'r cyngor a roddodd y TEG i oleuo'r gwaith o ddatblygu'r cynnig hwn, ar sail y wybodaeth a gawsant gan yr IBPS.

Roedd y TEG wedi rhoi cyngor ar y tri maes canlynol:

Ystyried barn ar y cyd:

Nid yw'r TEG wedi gallu diffinio meini prawf ar gyfer dyfarniad sy'n seiliedig ar farn ar y cyd heb fod angen cyflwyno asesiadau seicolegol clinigol ychwanegol a newydd ar gyfer

pob ymgeisydd unigol, sydd ddim yn bosib mewn cynllun seiliedig ar dariffau. Rhoddir y rhesymau am hyn isod:

Eglurodd yr IBPS fod barn ar y cyd yn rhoi hanes iechyd meddwl rhywun gan edrych ar y ffactorau corfforol, seicolegol a chymdeithasol perthnasol. Mae'n ystyried eu hanes, beth sy'n eu gwneud yn fregus, cryfderau a'u hamgylchiadau presennol.

Yn ôl cyngor yr IBPS i'r TEG, er y gall barn ar y cyd helpu i dywys triniaeth rhywun, ar ei ben ei hun ni all ddarparu marcwyr neu nodweddion clir a dibynadwy o ba mor ddifrifol yw effaith y niwed seicolegol ac nid ydynt ychwaith yn asesu i ba raddau y mae'r niwed seicolegol yn effeithio ar allu rhywun i ennill neu ofalu amdanynt eu hunain. Dim ond asesiad seicolegol a allai wneud hyn.

Mae hyn yn bwysig oherwydd y ffactorau hyn yw'r sail a ddefnyddir i dalu iawndal ychwanegol o dan y dyfarniad Cyflwr Iechyd Difrifol. Ni ellir defnyddio dull ar sail barn ar y cyd i benderfynu bod rhywun yn gymwys am ddyfarniad Cyflwr Iechyd Difrifol os nad yw'n darparu'r wybodaeth angenrheidiol.

Trothwy tystiolaeth ar gyfer anhwylderau seiciatrig difrifol:
I gymhwyso am y dyfarniad Cyflwr Iechyd Difrifol o ganlyniad i ddioddef anhwylder seiciatrig difrifol, rhaid i berson heintiedig gyflwyno adroddiad gan seiciatrydd ymgynghorol yn cadarnhau eu diagnosis ac yn dangos bod y diagnosis wedi'i gysylltu i'w haint. Rhaid iddynt hefyd ddangos tystiolaeth bod angen triniaeth sylweddol arnynt (er enghraifft, chwe mis o ofal eilaidd dan law ymgynghorydd, cael eu derbyn fel claf mewnol neu gadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl).

Nid yw'r TEG wedi gallu adnabod unrhyw feini prawf cymhwysedd ychwanegol fel y gallai rhywun ddangos lefel gyfwerth o niwed seicolegol difrifol mewn ffordd a fyddai'n gyson ag egwyddorion cynllun seiliedig ar dariffau.

Trefniant	Categori	Arbennig	(SCM):
Bydd rhai pobl heintiedig efallai wedi profi iechyd meddwl gwael sy'n fwy difrifol nag y mae'r cynnig craidd ar gyfer heintiau Hepatitis cronig yn darparu iawndal ar ei gyfer, ond heb fod yn ddigon difrifol i gymhwyso am ddyfarniad Cyflwr Iechyd Difrifol.			

O ystyried y cyfyngiadau a ddisgrifir uchod o ddefnyddio barn ar y cyd ac ail-ystyried y trothwy tystiolaeth ar gyfer anhwylderau seiciatrig difrifol, mae'r **TEG wedi edrych ar ffyrdd eraill o adnabod a rhoi mwy o iawndal i bobl yn y sefyllfa hon.**

Yn lle cyflwyno grŵp dyfarniad Cyflwr Iechyd Difrifol newydd, mae'r TEG wedi cynghori y byddai'r cynnig newydd ar gyfer dyfarniad Cyflwr Iechyd Difrifol ar gyfer pobl sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer SCM neu daliad cyfwerth (fel y disgrifiwn yn Rhan 1 yr ymgynghoriad hwn) **yn debygol o gynnwys a thrwy hynny roi iawndal ychwanegol i bobl gyda niwed seicolegol digon difrifol i effeithio ar eu gallu i weithio neu ofynion gofal nad yw'r cynnig craidd yn darparu ar ei gyfer.** Daethant i'r casgliad yma am y rhesymau canlynol:

- Mae'r asesiadau a ddefnyddir gan y Cynlluniau Cymorth Gwaed Heintiedig (IBSS) ar gyfer SCM yn gwerthuso effeithiau haint neu driniaeth ar gapasiti rhywun i weithio a gwneud tasgau beunyddiol. Mae gan yr IBSS yn y pedair gwlad feini prawf asesu sy'n cynnwys adolygiad o'r pryderon iechyd meddwl y mae rhywun yn ei brofi. Gwnaed cyfran fawr o'r ceisiadau i'r EIBSS (Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Lloegr) ar gyfer SCM ar sail effaith sylweddol a hirdymor ar fywyd rhywun, fel arfer yn ymwneud â dirywiad eu hiechyd meddwl.
- Mae meini prawf yr EIBSS er mwyn asesu pryderon iechyd meddwl ar gyfer SCM yn cynnwys: disgwyliad bod y person heintiedig wedi cael eu hasesu, ac yna wedi derbyn triniaeth, ar gyfer cyflwr seicolegol (neu y gwnaed ymdrechion i drin y cyflwr); bod asesiad o brognosis hirdymor wedi'i wneud gan arbenigwr cymwysedig priodol (seicolegydd neu seiciatrydd fel arfer); a disgwyliad bod y person heintiedig wedi ymgysylltu â'r asesiad hwn a'r driniaeth ac yn gallu dangos dogfennau i gadarnhau hynny. Sefydlwyd y meini prawf hyn ar ôl ymgynghoriad cyhoeddus gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn 2017.

Cynnig

Nid yw'r TEG wedi gallu diffinio meini prawf ar gyfer dyfarniad sy'n seiliedig ar farn ar y cyd heb fod angen cyflwyno asesiadau seicolegol clinigol ychwanegol a newydd ar gyfer pob ymgeisydd unigol. Byddem yn croesawu barn ymatebwyr am sut y gallwn wneud hyn, a barn am y cynnig a ddisgrifiwn yma.

Ar sail cyngor gan y TEG, cynigiwn fod **problemau iechyd meddwl difrifol nad yw'r cynnig craidd yn darparu ar eu cyfer yn derbyn iawndal drwy'r cynnig i wneud mwy o bobl yn gymwys am ddyfarniad Cyflwr Iechyd Difrifol oherwydd eu bod yn cwrdd â'r meini prawf ar gyfer SCM neu daliadau cyfwerth.**

Byddai'r cynnig hwn yn golygu bod y Cynllun yn talu iawndal ar gyfer ystod lawn o broblemau iechyd meddwl, gan ddibynnu ar ba mor ddifrifol ydynt:

- Drwy'r cynnig craidd: bydd pob person heintiedig wedi dioddef niwed seicolegol o ganlyniad i'r hyn a ddigwyddodd iddynt
- Drwy'r newidiadau arfaethedig i'r dyfarniad Cyflwr Iechyd Difrifol ar gyfer SCM: i bobl gyda phroblemau iechyd meddwl sydd angen mwy o iawndal nag y mae'r cynnig craidd yn ei roi iddynt ond nad ydynt yn ddigon drwg i gwrdd â throthwy'r dyfarniad Cyflwr Iechyd Difrifol ar gyfer anhwylderau seiciatrig difrifol, a;
- Ar gyfer y mathau mwyaf difrifol o niwed, lle nad yw'r un o'r ddau opsiwn uchod yn talu digon o iawndal, drwy'r dyfarniad Cyflwr Iechyd Difrifol ar gyfer anhwylderau seiciatrig difrifol, a fyddai'n aros yr un fath yn y cynnig hwn.

Cymhwysedd i dderbyn dyfarniad

Oherwydd y credwn mai'r ffordd orau i ddigolledu pobl sy'n dioddef o niwed seicolegol difrifol yw drwy'r newid arfaethedig i wneud mwy o bobl yn gymwys i dderbyn dyfarniad

Cyflwr Iechyd Difrifol ar gyfer SCM, mae'r cymhwysedd ar gyfer y dyfarniad hwnnw'n berthnasol, sef:

- Bydd pobl heintiedig neu ystadau pobl heintiedig sy'n derbyn SCM neu daliadau cyfwerth (neu a dderbyniodd y taliadau cyn iddynt farw) yn **gymwys yn awtomatig** am y dyfarniad hwn.
- Bydd pobl heintiedig byw sydd ddim ar hyn o bryd yn derbyn SCM neu daliadau cyfwerth gan IBSS yn gallu **gwneud cais i gael eu hasesu gan yr Awdurdod Iawndal Gwaed Heintiedig (IBCA)** yn erbyn yr un meini prawf. Os ydynt yn bodloni'r meini prawf, byddant yn derbyn y dyfarniad.

Cynigiwn hefyd ddefnyddio'r dyddiadau canlynol ar gyfer dechrau dyfarniad:

- Yn achos pobl sydd wedi cofrestru ag IBSS ac yn derbyn SCM neu daliad cyfwerth, y dyddiad y cawsant eu hasesu ar gyfer y taliad hwn gan eu Cynllun Cymorth.

Gwerthoedd dyfarniad

Oherwydd y credwn mai'r ffordd orau i ddigolledu pobl sy'n dioddef o niwed seicolegol difrifol yw drwy'r newid arfaethedig i wneud mwy o bobl yn gymwys i dderbyn dyfarniad Cyflwr Iechyd Difrifol ar gyfer SCM, mae'r gwerthoedd ar gyfer y dyfarniad hwnnw'n berthnasol, sef:

- **Dyfarniad Colled Ariannol** – byddai'r dyfarniadau Colled Ariannol yn cynyddu i **£17,794 neu £20,760 y flwyddyn**. Mae hyn wedi'i gyfrifo ar y sail bod pobl sy'n gymwys am SCM yn gallu gweithio llawer llai na llawn amser (tua un diwrnod a hanner neu ddau ddiwrnod yr wythnos ar gyfartaledd dros flwyddyn). Mae dau wahanol werth ar gael oherwydd y ffordd y mae dyfarniadau colled ariannol yn newid ar ôl cyflwyno triniaeth effeithiol ar gyfer haint.
- **Dyfarniad Gofal** – byddai lefel dyfarniad gofal yn £5,460 y flwyddyn, os na fyddai ar y lefel yma'n barod neu'n uwch, i dalu am ofal domestig ac ad-hoc am oes. Mae hyn yr un faint o iawndal y mae'r Cynllun yn ei roi i bobl sydd angen gofal 'lefel 1' (mae pump o wahanol lefelau gofal).

Cwestiynau

1. Mae'r rhan fwyaf o ddioddefwyr y sgandal gwaed heintiedig wedi dioddef niwed seicolegol. Mae'r Cynllun yn talu iawndal am hyn mewn tair ffordd, gan ddibynnu ar ddifrifoldeb y niwed:
 - **Cynnig craidd**
 - **Dyfarniad Cyflwr Iechyd Difrifol newydd arfaethedig ar gyfer SCM**
 - **Dyfarniad Cyflwr Iechyd Difrifol am anhwylderau seiciatrïg difrifol**

Ar draws y tri dyfarniad gwahanol hyn, ydy'r iawndal a gynigiwyd yn darparu'n llawn ar gyfer effeithiau iechyd meddwl yr haint neu'r driniaeth? Os ateboch na, pa broblemau iechyd meddwl eraill ddylai'r Cynllun eu hystyried yn eich barn chi?

2. I gymhwyso am y dyfarniad Cyflwr Iechyd Difrifol ar gyfer anhwylderau seiciatrig difrifol, ar hyn o bryd rhaid i bobl heintiedig gyflwyno adroddiad gan seiciatrydd ymgynghorol yn cadarnhau eu diagnosis a'r achosion, ynghyd â thystiolaeth o driniaeth helaeth (chwe mis o ofal eilaidd dan law ymgynghorydd, cael eu derbyn fel claf mewnol neu gadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl).

Pa dystiolaeth arall yn bodoli'n barod allai'r Cynllun ofyn i ymgeiswyr ei chyflwyno i ddangos niwed seicolegol difrifol, tebyg i'r dyfarniad Cyflwr Iechyd Difrifol ar gyfer Anhwylderau Seiciatrig Difrifol?

Rhan 3 – Cydnabod Niwed wedi'i achosi gan Driniaeth Interferon

Crynodeb

Mae llawer o bobl a heintwyd â Hepatitis B a / neu C wedi cael eu trin ag interferon (gyda neu heb ribavirin, sydd weithiau'n cael ei ddefnyddio ochr yn ochr â fo). Mewn nifer o achosion, mae triniaeth interferon wedi achosi sgîl-ffeithiau seicolegol a chorfforol ofnadwy.

Mae'r cynigion yn y bennod hon yn berthnasol i bobl a dderbyniodd driniaeth interferon, gyda neu heb ribavirin.

Mae rhai pobl yn gymwys am iawndal oherwydd yr effaith y mae interferon yn debygol o fod wedi'i gael arnynt.

Mae'r Cynllun yn defnyddio 'bandiau difrifoldeb' i sicrhau bod pobl yn derbyn yr iawndal iawn am ddifrifoldeb eu haint. Oni bai eu bod wedi datblygu sirosis yr iau neu hefyd wedi eu heintio â HIV, ar hyn o bryd mae'r Cynllun yn talu iawndal i bobl a dderbyniodd driniaeth interferon yn unol â band difrifoldeb Hepatitis Lefel 2 (Cronig). Mae hyn oherwydd bod y band Lefel 2 wedi'i ddylunio i dalu iawndal ar gyfer y cyflyrau a'r effeithiau eraill ar eu bywyd y byddai pobl gyda haint Hepatitis cronig fel arfer yn eu profi, gan gynnwys triniaeth interferon.

Roedd Adroddiad Ychwanegol yr Ymchwiliad yn awgrymu nad yw'r band difrifoldeb Lefel 2 yn talu digon o iawndal i gydnabod yn llawn yr effaith y cafodd triniaeth interferon ar bobl heintiedig. Mae'r Ymchwiliad felly wedi argymhell bod y Llywodraeth yn gwneud newidiadau i'r bandiau difrifoldeb.

Roeddem yn cytuno bod angen newidiadau ac yn cynnig cyflwyno band difrifoldeb haint newydd, o'r enw Lefel 2B, i dalu mwy o iawndal i bobl a dderbyniodd driniaeth interferon. Yn ymarferol, byddai hyn yn cynyddu'r dyfarniad iawndal i bobl a dderbyniodd driniaeth interferon cyn dechrau dioddef o sirosis.

Mae rhan yma'r ymgynghoriad yn holi barn am y cynnig yn y maes hwn.

Argymhelliad yr Ymchwiliad

Roedd Adroddiad Ychwanegol yr Ymchwiliad yn gwneud yr argymhelliad canlynol ar gyfer interferon:

"Dylid cydnabod bod gan bobl a heintwyd â Hepatitis B neu C ac a dderbyniodd gwrs o driniaeth gyda neu'n seiliedig ar interferon hawl i ddyfarniadau craidd ar Lefel 3."

Aeth yr Ymchwiliad ymlaen i ddweud y dylid cydnabod triniaeth interferon drwy Lefel 3 neu drwy gyflwyno band difrifoldeb haint newydd. Meddai'r Ymchwiliad *“mater i'r [Gweinidog] ei benderfynu yw dewis [Lefel] 3 neu [Lefel] 2B.”*

Beth y mae'r argymhelliad hwn yn ei olygu
Roedd yr Ymchwiliad yn argymhell dyfarnu mwy o iawndal i rai a dderbyniodd driniaeth interferon na'r hyn sy'n cael ei gynnig drwy fand difrifoldeb Lefel 2 ar hyn o bryd. Awgrymodd yr Ymchwiliad y gellid gwneud hyn naill ai drwy godi'r rhai a dderbyniodd driniaeth interferon i'r band Lefel 3 (Sirosis) uwch, neu drwy greu band difrifoldeb hollol newydd rhwng Lefel 2 a Lefel 3 i dalu iawndal yn benodol am effaith derbyn triniaeth ag interferon.

Ymateb y Llywodraeth

Gan ymateb i Adroddiad Ychwanegol yr Ymchwiliad yng Ngorffennaf 2025, cynigiodd y Llywodraeth gyflwyno band difrifoldeb Lefel 2B newydd i dalu mwy o iawndal ar gyfer effaith triniaeth interferon. Byddai'r band difrifoldeb Lefel 2B yn talu dyfarniadau craidd uwch na rhai Hepatitis Lefel 2 (Cronig) ac is na rhai Lefel 3 (Sirosis).

Grŵp Arbenigol Technegol

Roedd y Grŵp Arbenigol Technegol (TEG) wedi rhoi cyngor ar y ddau faes canlynol:

Effaith interferon ar iechyd corfforol a meddwl pobl

- **Effaith tymor byr interferon:** Edrychodd y TEG ar dystiolaeth o sgîl-ffeithiau tymor byr triniaeth interferon. Roedd hyn yn cynnwys canllawiau'r [Sefydliad Cenedlaethol er Rhagoriaeth Iechyd a Gofal \(NICE\)](#) sy'n awgrymu bod llawer o bobl, ond nid pawb, yn ystyried bod therapi interferon alfa'n anodd iawn ei oddef. Mae'r canllawiau'n nodi bod nifer fawr o gleifion yn profi symptomau tebyg i ffliw ar ôl pob pigiad ac y gallai hyd at hanner ddirodd o flinder cronig, cur pen, gwres, poen cyhyrau, insomnia a chfyog. Maen nhw hefyd yn nodi bod tua chwarter yn adrodd colli gwallt, poen cymalau, teimlo'n chwys oer, tymer flin, cosi, iselder, brech croen a llai o awydd bwyd, a bod sgîl-ffeithiau o'r fath yn aml yn gwneud i'r claf roi'r gorau i neu beidio â chadw at y driniaeth.
- **Effaith tymor hir interferon:** Roedd y TEG hefyd wedi ystyried y dystiolaeth o sgîl-ffeithiau tymor hir triniaeth interferon, yr oedd llawer o bobl heintiedig wedi eu hadrodd. Ni wnaeth [Grŵp Arbenigol Hepatitis](#) yr Ymchwiliad i Waed Heintiedig adnabod unrhyw sgîl-ffeithiau tymor hir dibynadwy'n gysylltiedig ag interferon yn y data treialon clinigol. Er bod iselder yn risg hysbys sy'n gysylltiedig â thriniaeth interferon, mae astudiaethau'n awgrymu bod y symptomau hyn fel arfer yn mynd yn sydyn ar ôl gorffen y driniaeth.

Lefelau a gwerthoedd dyfarniadau

- **Lefel 2B:** Roedd y TEG yn cynghori y dylai'r cynnig Lefel 2B dalu iawndal ar gyfer sgîl-effeithiau tymor byr triniaeth interferon. Yn ôl cyngor gan y TEG, byddai'r dyfarniadau Cyflwr Iechyd Difrifol atodol presennol ac arfaethedig yn darparu'n well ar gyfer sgîl-effeithiau tymor hir triniaeth interferon. Mae hyn yn golygu y gallai rhywun a ddioddefodd y sgîl-effeithiau hyn ddewis gwneud cais am ddyfarniad atodol i dderbyn iawndal pellach. Y grwpiau dyfarniad Cyflwr Iechyd Difrifol a fyddai'n berthnasol i rywun yn y sefyllfa hon yw: clefydau awto-imiwnedd; anhwylderau seiciatrig difrifol; a'r cynnig newydd sy'n cael ei drafod yn yr ymgynghoriad hwn i gyflwyno dyfarniad newydd, i dalu mwy o iawndal i bobl sy'n bodloni'r meini prawf SCM.
- **Parhad y driniaeth:** Roedd y TEG wedi cynghori ar ddylunio band difrifoldeb Lefel 2B a fyddai'n talu iawndal ar sail cyfnod triniaeth interferon cyfartalog o 48 wythnos. Fel y nodwn uchod, mae eu cyngor yn seiliedig ar ganllawiau NICE perthnasol ac adroddiad Grŵp Arbenigol Hepatitis yr Ymchwiliad i Waed Heintiedig. Rydym yn cydnabod bod hyd y triniaethau'n amrywio. Yn ôl yr hyn a ddywedodd y TEG, cynigiwn ddefnyddio'r cyfnod 48 wythnos yn gyson ar gyfer pob person heintiedig sy'n gymwys am y dyfarniad hwn, yn rhannol i leihau'r baich arnynt o gyflwyno tystiolaeth benodol a manwl o'u triniaeth a'i pharhad. Mewn rhai achosion, mae hyn yn golygu y bydd pobl yn derbyn iawndal fel pe baent wedi cael eu trin am hirach nag y cawsant eu trin.
- **Lefelau dyfarniad:** Mae'r TEG wedi rhoi cyngor ar y gwerthoedd dyfarniad a fyddai'n briodol ar gyfer band difrifoldeb Lefel 2B. Disgrifir y gwerthoedd dyfarniad hyn yn y cynnig.

Cynnig

Ar sail cyngor gan y TEG, disgrifiwn isod y cynnig ar gyfer sut y dylai'r band difrifoldeb Lefel 2B weithio, ar gyfer pob lefel dyfarniad a gwerth dyfarniad. Eglurwn hefyd sut y mae'r dyfarniad arfaethedig yn cymharu â'r dyfarniad Hepatitis Lefel 2 (Cronig) presennol ac ar ba sail y penderfynwyd y dyfarniad uwch.

Cymhwysedd

Bydd pawb a dderbyniodd driniaeth interferon yn gymwys ar gyfer y band difrifoldeb haint Lefel 2B arfaethedig. Bydd yn rhan o'u dyfarniad iawndal craidd.

Lefelau dyfarniad

- **Dyfarniad anaf:** Byddai'r dyfarniad Lefel 2B newydd yn cynnig chwydd-dâl o **£70,000** ar y band Hepatitis Lefel 2 (Cronig) presennol, gan ddod â chyfanswm gwerth y dyfarniad anaf i **£70,000**.
- **Dyfarniad Colled Ariannol:** Byddai'r dyfarniad Lefel 2B newydd yn digolledu pobl am fwy o golled ariannol na'r band Hepatitis Lefel 2 (Cronig), am ddwy flynedd. I weithio allan beth ddylai'r iawndal hwn fod, mae angen i ni ragdybio faint y gallai pobl weithio yn ystod ac yn syth ar ôl eu triniaeth interferon. Rhagdybiwn y byddai

capasiti enillion rhywun 20% yn llai yn ystod blwyddyn eu triniaeth interferon, a hefyd y flwyddyn ganlynol wrth iddynt wella. Mewn geiriau eraill, rhagdybiwn eu bod wedi gallu gweithio llawer llai na llawn amser. Byddai cyfanswm gwerth eu dyfarniad felly'n £23,726 y flwyddyn (80% o gyflog canolrifol y DU a 5% ar ben hynny) am ddwy flynedd (y flwyddyn pryd y dechreuodd y driniaeth interferon a'r flwyddyn wedyn) cyn troi'n ôl yn lefel o golled ariannol y byddai rhywun yn ei dderbyn ar gyfer difrifoldeb Hepatitis Lefel 2 (Cronig).

- **Dyfarniad Gofal:** Byddai'r dyfarniad Lefel 2B newydd yn digolledu pobl am flwyddyn ychwanegol o ofal lefel isel (16.5 awr yr wythnos, am y flwyddyn) o'i gymharu â band Hepatitis Lefel 2 (Cronig). Mae hyn ar sail cyngor TEG bod anghenion gofal ychwanegol sy'n gysylltiedig ag interferon fel arfer wedi eu cyfyngu i gyfnod y driniaeth a chyfnod byr wedyn. Ni fydd angen tystiolaeth bellach o ofal i gymhwyso am y dyfarniad gofal uwch hwn.

Sut y byddai'r cynnig hwn yn newid yr iawndal a dderbyniodd pobl yn barod

I helpu ymatebwyr i roi eu barn am y cynnig hwn, eglurwn isod beth y byddai'n ei olygu i bobl sydd wedi derbyn iawndal yn barod gan yr IBCA. Mae hyn yn bwysig oherwydd mae'r IBCA bellach wedi talu iawndal craidd i'r rhan fwyaf o bobl heintiedig a gofrestrodd â'r cynllun IBSS ac felly byddai'r rhan fwyaf o bobl y byddai'r newid hwn yn effeithio arnynt wedi derbyn peth iawndal yn barod.

Os ydych yn **gymwys ar hyn o bryd am y band Hepatitis Lefel 2 (Cronig)** ac wedi derbyn triniaeth interferon yn y gorffennol, byddai'r dyfarniad Lefel 2B arfaethedig yn rhoi mwy o iawndal i chi am anaf, colled ariannol a gofal.

Os ydych yn **gymwys ar hyn o bryd am y band Lefel 2 (Sirosis) neu Lefel 4 (Sirosis Gwaethybol)** ac wedi derbyn triniaeth interferon yn y gorffennol, byddai'r newid i'ch iawndal o ganlyniad i'r cynnig hwn yn dibynnu ar ddifrifoldeb eich haint pan dderbynioch y driniaeth interferon:

- Os derbyniodd interferon **cyn datblygu sirosis**, byddai eich dyfarniad am golled ariannol yn cynyddu, ond ni fyddai eich dyfarniadau Anaf a Gofal yn newid. Mae hyn oherwydd bod y dyfarniad Lefel 3 neu 4 yn rhoi iawndal i chi'n barod am y math o niwed corfforol a meddwl sydd hefyd yn cael ei achosi gan driniaeth interferon.
- Os derbyniodd interferon **ar ôl datblygu sirosis** (h.y. Lefel 3 neu 4), ni fyddai eich dyfarniad iawndal yn newid o gwbl. Mae hyn oherwydd bod y dyfarniad Lefel 3 neu 4 yn rhoi iawndal i chi'n barod am y math o niwed corfforol a meddwl sydd hefyd yn cael ei achosi gan driniaeth interferon.

Cwestiynau:

1. Ydych chi'n meddwl bod sgîl-ffeithiau tymor byr (para am lai na 2 flynedd) i driniaeth interferon nad yw'r cynnig hwn wedi eu hystyried?

I'ch atgoffa, mae Lefel 2B yn awgrymu dwy flynedd ychwanegol o golled ariannol uwch ac un flwyddyn ychwanegol o ofal lefel isel (16.5 awr yr wythnos) o'i gymharu â Lefel 2. Mae'r math o sgîl-ffeithiau tymor byr a achosir gan interferon yn cynnwys: blinder cronig, cur pen ac insomnia.

2. Os ateboch 'oes' i gwestiwn un, pa sgîl-ffeithiau tymor byr (para llai na dwy flynedd) sydd heb gael eu hystyried gan y cynnig hwn yn eich barn chi? Byddem yn falch o dderbyn tystiolaeth i gefnogi eich ymateb i'r cwestiwn hwn ac unrhyw fanylion am sut yr effeithiodd y sgîl-ffeithiau hyn ar eich anghenion gofal a gallu gweithio dros gyfnod penodol o amser.
3. Ydych chi'n meddwl bod sgîl-ffeithiau tymor hir (para mwy na 2 flynedd) i driniaeth interferon sydd ddim yn cael eu hystyried yn llawn gan y dyfarniad Cyflwr Iechyd Difrifol arfaethedig?

I'ch atgoffa, ar hyn o bryd mae'r dyfarniad Cyflwr Iechyd Difrifol yn digolledu pobl sydd â chlefydau awto-imiwnedd a ysgogir neu a waethygir gan interferon ac anhwylderau seiciatrig difrifol. Mae'r cynnig newydd hwn yn rhoi mwy o iawndal i bobl sy'n bodloni'r meini prawf a ddisgrifir gan 'Drefniant Categori Arbennig' yr IBSS neu gyfwerth.

4. Os ateboch 'oes' i gwestiwn un, pa sgîl-ffeithiau tymor hir oherwydd triniaeth interferon (para mwy na 2 flynedd) sydd ddim yn cael eu cynnwys gan y dyfarniad Cyflwr Iechyd Difrifol yn eich barn chi? Byddem yn falch o dderbyn tystiolaeth i gefnogi eich ymateb i'r cwestiwn hwn ac unrhyw fanylion am sut yr effeithiodd y sgîl-ffeithiau hyn ar eich anghenion gofal a gallu gweithio dros gyfnod penodol o amser.

Rhan 4 – Dyfarniadau Colled Ariannol a Gofal yn y Gorffennol

Crynodeb

Mae llawer o ddioddefwyr gwaed heintiedig wedi dioddef colledion ariannol oherwydd eu haint. I wneud iawn am y colledion hyn, mae'r Cynllun yn dyfarnu iawndal i dalu am gostau gofal yn y gorffennol a chostau gofal disgwylidig yn y dyfodol. Mae hefyd yn talu iawndal am golledion ehangach a achoswyd gan, er enghraifft, effaith yr haint ar allu gweithio yn y gorffennol a gallu gweithio yn y dyfodol.

Roedd Adroddiad Ychwanegol yr Ymchwiliad yn cynnwys argymhellion i newid hyn.

Mae'r Ymchwiliad wedi argymhell newid y fformiwla fathemategol a ddefnyddir yn y Cynllun i gyfrifo dyfarniadau am gostau gofal a cholled ariannol yn y gorffennol. Mae hyn yn berthnasol i bobl heintiedig sy'n dewis parhau i dderbyn taliadau gan gynlluniau cymorth pan fyddant yn derbyn eu hiawndal gan yr IBCA.

Rydym wedi datblygu cynnig i newid sut y mae dyfarniadau **Gofal** 'yn y gorffennol' yn cael eu cyfrifo, mewn ffordd sydd ddim yn creu anfantais ar sail sut y mae person yn dewis derbyn eu hiawndal (h.y. fel cyfandaliad untro'n unig neu daliadau cymorth parhaus).

Rydym wedi ystyried dwy wahanol ffordd o newid sut y mae **dyfarniadau Colled Ariannol** yn cael eu cyfrifo.

Mae rhan yma'r ymgynghoriad yn gwahodd barn am y cynigion hyn.

Argymhelliad yr Ymchwiliad

Yr argymhelliad a wnaed yn Adroddiad Ychwanegol yr Ymchwiliad ar gyfer colled ariannol a gofal yn y gorffennol yw:

"tynnu 'x' allan o'r hafaliad a ddisgrifir yn Rheoliad 7."

Beth y mae'r argymhelliad hwn yn ei olygu
Mae tynnu'r llythyren 'x' allan o'r hafaliad yn newid sut y bydd yn gweithio.

Mae'r Ymchwiliad wedi argymhell y newid hwn oherwydd ei fod eisiau i'r Llywodraeth edrych eto ar sut y mae dyfarniadau Colled Ariannol a Gofal yn y gorffennol yn cael eu cyfrifo ar gyfer pobl sy'n dewis parhau i dderbyn taliadau cynlluniau cymorth. Maen nhw'n meddwl bod y cyfrifiad yn creu annhegwch rhwng pobl sy'n parhau i dderbyn taliadau cynlluniau cymorth a rhai sydd ddim. Mae'r hafaliad hwn yn berthnasol i'r cyfrifiadau hynny.

Ymateb y Llywodraeth

Mae'r Llywodraeth wedi derbyn bod angen newid y Cynllun yn hyn o beth ac wedi ymrwymo i ymgynghori ar beth fyddai'r newidiadau mwyaf priodol.

I helpu ymatebwyr i ddeall y cynigion ac ystyried pa un fyddai'r un tecaf yn eu barn nhw, rydym wedi rhoi mwy o wybodaeth am yr hafaliad y mae argymhelliad yr Ymchwiliad yn cyfeirio ato, a sut y mae'n gweithio.

Dyma'r hafaliad a fyddai'n cael ei newid gan argymhelliad yr Ymchwiliad:

$$x \times ((Y2 + 0.25) \div Y1) \times T$$

Yn yr hafaliad hwn, mae 'Y2' yn cynrychioli nifer y blynyddoedd yn y cyfnod rhwng haint rhywun a'r flwyddyn 2024 (pan ddaeth y rheoliadau gyntaf i rym). Mae'n cynnwys y ddwy flynedd hyn. 'Y1' yw nifer y blynyddoedd yn y cyfnod rhwng haint rhywun a'r rhagamcan o'u disgwyliad oes. "T" yw gwerth y dyfarniad sy'n cael ei rannu'n elfennau'r gorffennol ac elfennau'r dyfodol.

Er mwyn i'r IBCA gyfrifo dyfarniadau pobl, mae angen diffiniad penodol o ystyr 'gorffennol' a 'dyfodol'. I bwrpas y Cynllun, y gorffennol yw'r cyfnod hyd at 31 Mawrth 2025 a'r dyfodol yw'r cyfnod o'r 1 Ebrill 2025 ymlaen.

Er mwyn cyfrifo dyfarniad Colled Ariannol yn y gorffennol, gwerth 'x' yw 1. Mae hyn yn golygu pan ddefnyddir y fformiwla i gyfrifo dyfarniad am golled ariannol yn y gorffennol, na fydd yr 'x' yn newid gwerth yr iawndal.

Ar gyfer cyfrifo dyfarniad Gofal yn y gorffennol, mae gwerth 'x' yn wahanol. Ei werth yw 0.75. Mae hyn yn golygu pan ddefnyddir y fformiwla i gyfrifo dyfarniad ar gyfer gofal yn y gorffennol, mae'r 'x' yn yr hafaliad yn **lleihau** gwerth yr iawndal o 25%.

Yn unol ag argymhelliad Syr Robert Francis, mae'r lleihad yn seiliedig ar ragdybio bod gofal yn y gorffennol wedi'i roi am ddim gan anwyliad, ac nid gan ofalwyr proffesiynol. Ni fyddai'r person heintiedig felly wedi achosi costau fel treth ac yswiriant gwladol.

I'r rhan fwyaf felly, mae iawndal am eu holl ofal yn y gorffennol yn cael ei gyfrifo'n defnyddio cyfraddau gofal masnachol 2023/2024 cyn lleihau'r gwerth o 25%. Yr eithriad i hyn yw bod person yn gallu dangos eu bod wedi talu am ofal proffesiynol yn y gorffennol ac, os felly, ni fyddai'r 25% yn cael ei dynnu allan. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y dyfarniad yn adlewyrchu cost y gofal yn llawn gan gynnwys treuliau fel treth ac yswiriant gwladol.

Mae'r llysoedd hefyd, fel arfer, yn lleihau'r dyfarniad pan fydd gofal wedi'i roi i rywun heb dâl. Y lleihad arferol mewn llys yw rhwng 20%-30%.

Cynnig: Dyfarniadau Gofal

Ar y funud, pan fydd rhywun a ddewisodd barhau i dderbyn taliadau cynllun cymorth am oes yn marw, mae'r IBCA yn gwneud cyfrifiad. Mae'n edrych ar werth dyfarniadau Colled

Ariannol a Gofal y person **yn y dyfodol**. Yna mae'n edrych ar faint o arian y derbyniodd y person yn barod mewn taliadau Cynllun Cymorth. Os oedd y person, cyn marw, yn derbyn llai mewn taliadau Cynllun Cymorth na gwerth eu dyfarniadau Colled Ariannol a Gofal yn y dyfodol, bydd eu hystâd yn derbyn taliad i wneud y gwahaniaeth.

Er enghraifft, pe bai rhywun yn marw ar ôl derbyn £100,000 mewn taliadau Cynllun Cymorth cyn marw, ond roedd cyfanswm eu dyfarniadau Colled Ariannol a Gofal yn y dyfodol yn werth £120,000, byddai'r IBCA yn talu £20,000 i'w hystâd.

Cynigiwn newid sut y mae hyn yn gweithio, felly pan fydd yr IBCA yn cyfrifo hyn, bydd yn edrych ar ofal a cholled ariannol y person yn y dyfodol **a'r 25% a fyddai wedi cael ei dynnu allan o'u gofal yn y gorffennol**. Byddai hyn yn golygu bod yr ystâd yn derbyn y taliad uchod a hefyd gwerth y disgownt o 25% a fyddai wedi cael ei roi ar ddyfarniad Gofal y person yn y gorffennol.

Mae hyn yn golygu na all person heintiedig byth fod allan o boced, o ran y pecyn cyfan o iawndal y maen nhw'n ei dderbyn, na phe byddent wedi dewis stopio derbyn taliadau Cynllun Cymorth a chymryd cyfandaliad yn eu lle.

Yn y cynnig hwn, ni fyddai "x" a sut y mae'n gweithio yn yr hafaliad yn newid. Yn hytrach, byddai'r gwerth a fyddai'n cael ei dynnu allan yn cael ei ychwanegu at y dyfarniad mewn ffordd wahanol.

Cynigiwn hyn oherwydd y byddai gwneud yn union beth y mae'r Ymchwiliad wedi'i argymhell (newid yr hafaliad i dynnu'r disgownt o 25% o iawndal person am ofal yn y gorffennol) o fudd i bobl sy'n dal i fod yn fyw a ddewisodd dderbyn taliadau Cynllun Cymorth parhaus. Fodd bynnag, byddai'n annhegwch newydd drwy roi mantais ariannol sylweddol i rai sy'n dewis derbyn taliadau Cynllun Cymorth am oes, gan eu rhoi mewn sefyllfa well nag ystadau a phobl heb gofrestru â chynllun IBSS nad ydy'r dewis hwn ar gael iddynt.

Cynnig: Colled Ariannol

Ni fyddai argymhelliad yr Ymchwiliad (i dynnu allan "x" o'r fformiwla berthnasol) yn gwneud **dim gwahaniaeth** i gyfrifo colled ariannol yn y gorffennol o dan y Cynllun. Mae hyn oherwydd wrth gyfrifo colled ariannol, gwerth "x" yw "1", sy'n cynrychioli union werth colled ariannol rhywun yn y gorffennol.

Fodd bynnag, er na wnaeth yr Ymchwiliad argymhelliad penodol yn ei Adroddiad Ychwanegol, edrychodd ar sut y mae colled ariannol yn y gorffennol yn cael ei gyfrifo o dan y Cynllun, gan drafod ffordd wahanol.

Yn yr ymgynghoriad hwn, rydym felly'n gwahodd barn am a ddylid cadw'r cyfrifiad o golled ariannol yr un fath, neu ddewis y dull cyfrifo sydd wedi'i drafod gan yr Ymchwiliad. Byddai'r

ddau gynnig yma ar gyfer colled ariannol yn effeithio ar wahanol hawlyddion mewn gwahanol ffyrdd. Disgrifiwn y cynigion hyn isod, a beth y maen nhw'n ei feddwl:

Cynnig Un: Cadw'r dull presennol o gyfrifo colled ariannol

Ar hyn o bryd mae cyfrifo colled ariannol yn dyrannu gwerth colled ariannol penodol i bob blwyddyn o haint rhywun. Mae'r gwerth yma'n newid gan ddibynnu ar ddifrifoldeb yr haint. Yn y blynyddoedd pan fo'r haint yn waeth, mae gwerth colled ariannol uwch yn cael ei ddyrannu. Mae gwerthoedd y blynyddoedd hyn yna'n cael eu hadio at ei gilydd i greu cyfanswm gwerth dyfarniad ar gyfer oes gyfan rhywun.

Mae'r cyfanswm gwerth dyfarniad yna'n cael ei rannu'n gyfnodau 'gorffennol' a 'dyfodol' (i bwrpas y Cynllun, 'gorffennol' yw'r cyfnod yn dod i ben ar 31 Mawrth 2025). Mae pob blwyddyn yna'n cael gwerth cyfartalog drwy rannu cyfanswm gwerth y dyfarniad yn gyfartal ar draws y blynyddoedd. Os yw rhywun yn dewis parhau i dderbyn taliadau Cynllun Cymorth am oes, maen nhw'n derbyn y gwerth 'gorffennol' gan yr IBCA yn syth.

Er mwyn ystyried ai'r cynnig hwn a fyddai'n well gan ymatebwyr, mae hefyd yn bwysig deall beth y mae'n ei olygu i bobl a heintiwyd pan oeddent yn blentyn.

Dim ond y blynyddoedd pan fydd person heintiedig yn 16+ oed a ddefnyddir i gyfrifo eu dyfarniad Colled Ariannol cyfan oherwydd ni fyddent wedi bod yn ddigon hen i weithio mewn swydd gyda thâl cyn hynny. Fodd bynnag, fel y dywedwn yn gynharach yn y rhan yma, mae gwerth 'gorffennol' dyfarniad rhywun yn cael ei gyfrifo o bryd y cawsant eu heintio, hyd yn oed os oedd hynny cyn 16 oed.

Mae hyn yn golygu bod gan bobl a heintiwyd cyn 16 oed ddyfarniad 'gorffennol' mwy oherwydd bod gan flynyddoedd eu plentyndod a'u blynyddoedd 'gweithio' ran o'r dyfarniad cyfan fydd yn cael ei ddyrannu iddynt.

Cynnig Dau: Newid y dull presennol drwy beidio â chyfartalu colled ariannol dros flynyddoedd oes rhywun.

Yr opsiwn arall yn lle rhannu'r dyfarniad Colled Ariannol cyfan yn gyfartal ar draws yr holl flynyddoedd perthnasol fyddai newid y cyfrifiad fel bod pob blwyddyn o gyfnod haint person yn cadw ei werth penodol. Penderfynir y gwerth a roddir i bob blwyddyn yn ôl difrifoldeb yr haint y flwyddyn honno. Dyma'r dull sy'n cael ei drafod yn adroddiad yr Ymchwiliad.

Byddai'r gwerthoedd dyfarniad penodol am bob blwyddyn hyd at 1 Ebrill 2025 yna'n cael eu hadio i greu dyfarniad "gorffennol"; cyn adio'r gwerthoedd dyfarniad penodol am bob blwyddyn ar ôl hynny i greu dyfarniad yn y "dyfodol". Felly os yw blynyddoedd bywyd person sydd â gwerth dyfarniad uwch yn y dyfodol, bydd eu dyfarniad yn y dyfodol yn tueddu i fod yn fwy nag un y gorffennol (ac fel arall).

Gyda'r dull hwn, ni fyddai blynyddoedd plentyndod – sydd heb ddyfarniad Colled Ariannol – yn rhan o'r cyfrifiad o gwbl ac felly gallai pobl a heintwyd cyn eu bod yn 16 oed weld gwerth eu colled ariannol yn y gorffennol yn lleihau o'i gymharu â'r dull cyfrifo a ddefnyddir ar hyn o bryd, am y rhesymau a roddir yng Nghynnig Un. Byddai'r dyfarniad Colled Ariannol sylfaenol o £12,500 yn parhau i gael ei rannu yn yr un ffordd ag o dan Gynnig Un, oherwydd nid yw ynghlwm wrth unrhyw flwyddyn benodol.

Beth fyddai'r cynigion yn ei olygu i bobl heintiedig

Oherwydd nad yw'r Llywodraeth yn cadw data unigol ar oed na statws iechyd pobl, nid ydym mewn sefyllfa i wybod yn union faint o bobl heintiedig a fyddai'n gweld eu dyfarniad yn y gorffennol yn lleihau pe bai cynnig dau – newid y cyfrifiad – yn cael ei weithredu.

Fodd bynnag, yn gyffredinol gallwn ddweud sut y mae'n debygol o effeithio ar bobl heintiedig ar sail eu hamgylchiadau:

- Mae pobl a symudodd i fyny fand difrifoldeb yn ddiweddar, neu a ddatblygodd gyflwr iechyd difrifol (neu, mewn amgylchiadau llai tebygol, a dderbyniodd ddiagnosis HIV diweddar neu a heintwyd ag unrhyw haint perthnasol) yn debygol o weld eu dyfarniad yn y gorffennol yn **lleihau** wrth newid y cyfrifiad, o'i gymharu â chadw'r dull presennol.
- Mae pobl sydd wedi bod ar eu band difrifoldeb presennol am amser hir yn debygol o weld gwerth eu dyfarniad yn y gorffennol yn **cynyddu** pe bai'r dull yn newid, o'i gymharu â'r dull presennol.

Gallai'r enghreifftiau damcaniaethol canlynol hefyd helpu i egluro hyn.

Enghreifftiau

Enghraifft 1: Aaron

Mae Aaron yn gwneud cais i'r Cynllun yn 2026, yn 66 oed. Cafodd ei heintio â Hepatitis C pan anwyd ef yn 1960 neu'n fuan wedyn, mae'n debyg oherwydd triniaeth am haemoffilia difrifol. Mae Aaron wedi cofrestru ag IBSS a blwyddyn rhagamcan ei ddisgwyliad oes yw 2045.

Mae gan Aaron Hepatitis C cronig ac wedi datblygu sirosis yn 2000. Ei ddyfarniad Colled Ariannol pe bai'n dewis stopio derbyn taliadau Cynllun Cymorth fyddai £1,151,348.

Pe bai'n dewis parhau i dderbyn taliadau Cynllun Cymorth, byddai hyn yn cael ei rannu'n elfennau gorffennol a dyfodol.

O dan Ddull 1 (y dull presennol): Byddai gan Aaron ddyfarniad Colled Ariannol "gorffennol" o £873,511.83 a dyfarniad Colled Ariannol "dyfodol" o £277,796.17.

Cyfrifir hyn yn defnyddio'r fformiwla a roddir uchod:

$$x \times ((Y2 + 0.25) \div Y1) \times T$$

Yn achos Aaron, byddai hyn yn:

$$1 \times ((65 + 0.25) \div 86) \times £1,151,348 = £873,511.83$$

Ar gyfer Aaron, 'x' yw 1 oherwydd ein bod yn cyfrifo colled ariannol. 'Y2' yw 65 oherwydd dyna nifer y blynyddoedd yn y cyfnod yn dechrau gyda'r flwyddyn y cafodd ei heintio a gorffen yn 2024 (gan gynnwys y ddwy flynedd). 'Y1' yw 86 oherwydd dyna nifer y blynyddoedd yn y cyfnod yn dechrau gyda'r flwyddyn y cafodd ei heintio a gorffen gyda blwyddyn ei ddisgwyliad oes. T yw £1,151,348 oherwydd dyma werth cyfanswm dyfarniad Colled Ariannol Aaron.

O dan Ddull 2 (y dull arall neu amgen): Byddai gan Aaron ddyfarniad Colled Ariannol "gorffennol" o £893,277.50 a dyfarniad Colled Ariannol "dyfodol" o £258,070.50.

Mae hyn oherwydd bod gan Aaron 24 o flynyddoedd yn y gorffennol ar lefel 2 a 25.25 o flynyddoedd ar lefel 3. Hefyd, byddai £9,484 o'i ddyfarniad Colled Ariannol sylfaenol yn y gorffennol, ar sail y fformiwla uchod.

	24 x £11,863 = £284,712
+	25.25 x £23,726 = £599,081.50
+	£9,484
=	£893,277.50

Mae hyn yn golygu y byddai newid y dull yn cynyddu dyfarniad Colled Ariannol "gorffennol" Aaron o £19,725.67 a lleihau ei ddyfarniad Colled Ariannol yn y dyfodol o'r un faint.

Enghraifft 2: Bill

Mae sefyllfa Bill yn debyg iawn i un Aaron. Mae'n gwneud cais i'r Cynllun yn 2026 ac mae hefyd yn 66 oed. Cafodd ei heintio â Hepatitis C pan anwyd ef yn 1960 neu'n fuan wedyn. Mae Bill wedi cofrestru ag IBSS ac, fel Aaron, blwyddyn rhagamcan ei ddisgwyliad oes yw 2045.

Fodd bynnag mae haint Bill wedi datblygu'n wahanol i un Aaron. Ni ddatblygodd Bill sirosis tan 2020. Ei ddyfarniad Colled Ariannol pe bai'n dewis stopio derbyn taliadau Cynllun Cymorth fyddai £914,088.00 – sy'n is na swm Aaron oherwydd ei fod wedi treulio llai o flynyddoedd gyda sirosis.

Pe bai'n dewis parhau i dderbyn taliadau Cynllun Cymorth, byddai hyn yn cael ei rannu'n elfennau gorffennol a dyfodol.

O dan Ddull 1 (y dull presennol): Byddai gan Bill ddyfarniad Colled Ariannol “gorffennol” o £693,537.70 a dyfarniad Colled Ariannol “dyfodol” o £220,550.30.

Cyfrifir hyn yn defnyddio'r fformiwla a roddir uchod:

$$x \times ((Y2 + 0.25) \div Y1) \times T$$

Yn achos Bill byddai hyn yn:

$$1 \times ((65 + 0.25) \div 86) \times £914,088.00 = £693,537.70$$

Mae'r gwerthoedd i gyd yr un fath ar gyfer Bill ac Aaron heblaw am 'T'. Mae 'Y2' a 'Y1' yr un fath ar gyfer Aaron a Bill oherwydd eu bod yr un oed a'r ddau wedi eu heintio'r un flwyddyn.

O dan Ddull 2 (y dull arall neu amgen): Byddai gan Bill ddyfarniad Colled Ariannol “gorffennol” o £656,017.50 a dyfarniad Colled Ariannol “dyfodol” o £258,070.50.

Mae hyn oherwydd bod gan Bill 44 o flynyddoedd yn y gorffennol ar lefel 2 a 5.25 o flynyddoedd ar lefel 3. Hefyd, byddai £9,484 o'i ddyfarniad Colled Ariannol sylfaenol yn y gorffennol, ar sail y fformiwla uchod.

$$\begin{array}{rcl} & 44 \times £11,863 & = £521,972 \\ + & 5.25 \times £23,726 & = £124,561.50 \\ + & £9,484 & \\ = & \mathbf{£656,017.50} & \end{array}$$

Mae hyn yn golygu y byddai newid y dull yn **lleihau** dyfarniad Colled Ariannol “gorffennol” Bill o £37,520.20 a chynyddu ei ddyfarniad Colled Ariannol yn y dyfodol o'r un faint.

Cwestiynau

1. Pe bai rhywun yn dewis derbyn taliadau Cynllun Cymorth am oes, mae'r Ymchwiliad wedi cynnig dileu'r 25% a fyddai'n cael ei dynnu allan o ofal yn y gorffennol (Opswn 1). Mae'r cynnig yn rhoi dewis arall drwy gynnwys y 25% a fyddai'n cael ei dynnu allan o'r dyfarniad Gofal yn y gorffennol wrth gyfrifo a ddylid talu dyfarniad ychwanegol i'w hystâd ar ôl iddynt farw (Opswn 2).

Yn eich barn chi, pa gynnig sy'n taro'r cydbwysedd tecaf rhwng iawndal i rai sy'n derbyn taliadau Cynllun Cymorth a hawlyddion eraill?

2. Wrth gyfrifo colled ariannol yn y gorffennol, gofynnwn a fyddai'n well gan bobl y cyfrifiad presennol sy'n defnyddio gwerth cyfartalog ar gyfer pob blwyddyn, neu gyfrifiad sy'n dilyn dull penodol o un flwyddyn i'r llall, heb gyfartalu.

Pa ddull sydd decaf yn eich barn chi?

Rhan 5 – Gofynion Tystiolaeth ar gyfer Colled Eithriadol

Crynodeb

Mewn rhai achosion eithriadol, bydd pobl heintiedig wedi dioddef colledion ariannol mwy oherwydd eu haint nag y bydd iawndal wedi'i dalu iddynt drwy eu dyfarniad cynnig craidd. Er enghraifft, oherwydd bod ganddynt enillion arbennig o uchel cyn iddynt gael eu heintio. Gall pobl heintiedig yn y sefyllfa hon wneud cais am ddyfarniad Colled Eithriadol drwy gynnig atodol y Cynllun, ac os ydynt yn gymwys, derbyn iawndal colled ariannol ychwanegol i adlewyrchu eu hamgylchiadau.

I ddangos eu bod yn gymwys am y dyfarniad Colled Eithriadol fel y mae'n gweithio ar hyn o bryd, rhaid i bobl ddangos tystiolaeth (e.e. slip cyflog neu anfonebau) eu bod wedi rhoi'r gorau i'w gwaith cyflogedig neu hunan-gyflogedig oherwydd eu salwch, ac y byddent fel arall wedi ennill mwy o wneud y gwaith hwn na'r swm a gawsant drwy eu dyfarniad cynnig craidd. Os oedd rhywun yn hunan-gyflogedig, rhaid dangos tystiolaeth am bob blwyddyn o golled. Os oedd y person yn weithiwr cyflogedig, rhaid dangos tystiolaeth am ddwy allan o bob tair blynedd o enillion. Os na all person ddangos y dystiolaeth yma, nid yw'r dyfarniad Colled Eithriadol ar gael iddynt ar hyn o bryd.

Roedd Adroddiad Ychwanegol yr Ymchwiliad yn cynnwys argymhelliad i ymgynghori drwy ofyn ydy'r gofynion tystiolaeth hyn yn golygu bod rhai pobl a ddylai fod yn gymwys am y dyfarniad yn cael eu hatal rhag ei dderbyn, ac a oes ffyrdd o ddelio â hyn.

Rydym wedi cytuno i ymgynghori ar y mater hwn. Ar ôl gofyn i'r Grŵp Arbenigol Technegol (TEG) am gyngor, nid oes gennym gynnig penodol ar gyfer sut y gallai'r dyfarniad colled eithriadol newid mewn ffordd a fyddai'n hyfyw a theg, fel rhan o gynllun iawndal seiliedig ar dariffau. Anogwn ymatebwyr i adolygu'r hyn a ystyriwyd gennym cyn dod i'r casgliad hwn, a ddisgrifir yn y rhan yma o'r ymgynghoriad.

Argymhelliad **yr** **Ymchwiliad**

Yr argymhelliad a wneir yn Adroddiad Ychwanegol yr Ymchwiliad o ran y gofynion tystiolaeth ar gyfer colled ariannol yw:

"Bod Swyddfa'r Cabinet yn ymgynghori drwy ofyn ydy'r gofynion tystiolaeth ar gyfer enillion llai eithriadol yn debygol o atal pobl sydd â digon o dystiolaeth i sefydlu'n hyderus eu bod yn gymwys i dderbyn dyfarniad o'r fath, yn ôl beth sy'n debygol, ac os felly'n ystyried a ellid cyflwyno unrhyw ddarpariaeth fel eu bod yn gallu derbyn dyfarniad o'r fath."

Beth y mae'r argymhelliad hwn yn ei olygu
Roedd Adroddiad Ychwanegol yr Ymchwiliad yn ystyried a allai lefel y dystiolaeth y mae'r Cynllun yn gofyn amdani ar hyn o bryd i gadarnhau cymhwysedd am y dyfarniad Colled Ariannol atal rhai pobl, a ddylai fod yn gymwys, rhag derbyn y dyfarniad. Roedd yr

Ymchwiliad yn argymhell bod Swyddfa'r Cabinet yn ymgynghori ar hyn, gan ystyried beth ellid ei wneud i gefnogi rhai nad ydynt yn gallu dangos y dystiolaeth sy'n ofynnol ar hyn o bryd (e.e. rhywun gyda busnes a aeth i'r wal o ganlyniad uniongyrchol i dderbyn triniaeth am eu haint ond na chadwodd gofnodion llawn) ond a allai fod â thystiolaeth arall i ddangos y dylent fod yn gymwys yn ôl beth sy'n debygol.

Roedd Adroddiad Ychwanegol yr Ymchwiliad hefyd wedi nodi sefyllfa pobl a heintwyd yn gynnar mewn bywyd neu yn eu bywyd gwaith cyn gallu gwireddu eu potensial. Yn achos plant, mae'n gydnabyddedig *'y byddai'n anghyffredin i unrhyw dystiolaeth fod ar gael i ddangos, yn ôl beth sy'n debygol, y byddai'r enillion yn uwch – neu'n is – na'r enillion canolrifol'*. Fodd bynnag, awgrymodd y gallai fod achosion lle'r oedd y dystiolaeth yn gryf bod y potensial i ennill mwy nag enillion cyfartalog yn real, gan ddisgrifio achos rhywun a ddechreuodd eu hyfforddiant proffesiynol gyda phob gobaith i bob golwg o lwyddo, cyn cael eu heintio ac felly'n methu â pharhau gyda'u gyrfa.

Ymateb y llywodraeth

Wrth ymateb i Adroddiad Ychwanegol yr Ymchwiliad yng Ngorffennaf 2025, cytunodd y Llywodraeth i ymgynghori ar lefel y dystiolaeth sy'n ofynnol ar hyn o bryd i sicrhau bod y bobl y mae'r dyfarniad wedi'i fwriadu ar ei gyfer yn gallu ei dderbyn.

Grŵp Arbenigol Technegol

Fe wnaethom ofyn i'r TEG am gyngor ar sut y gellid newid y dyfarniad Colled Eithriadol i gwrdd yn well ag ystyriaethau'r Ymchwiliad o ran gofynion tystiolaeth, a sylwadau'r Ymchwiliad am bobl a heintwyd cyn gwireddu eu potensial yn llawn. Fodd bynnag, ni allai'r TEG feddwl am gynnig penodol ar gyfer sut y gallai'r dyfarniad Colled Eithriadol newid mewn ffordd a fyddai'n hyfyw a theg, fel rhan o gynllun iawndal seiliedig ar dariffau.

Dyluniad y Cynllun presennol

Sut y mae'r dyfarniad craidd yn gweithio

Mae gan bob person heintiedig hawl i iawndal am y golled ariannol y byddant wedi'i gael o ganlyniad i'w haint. Mae dwy ran i hyn. Y gyntaf yw dyfarniad Colled Ariannol 'cyfradd sylfaenol' y mae pawb yn ei gael. Os oes gan rywun haint cronig, neu wedi cael haint cronig cyn iddynt farw, maen nhw hefyd yn derbyn dyfarniad Colled Ariannol ychwanegol. Cyfrifir hyn ar sail pa mor ddifrifol yw eu haint ac am ba hyd yr oeddent wedi eu heintio.

Mae'r dyfarniad Colled Ariannol ychwanegol yn cael ei gyfrifo ar sail y byddai rhywun wedi gweithio rhwng 16 a 66 oed. Mae'r cyfrifiad yma'n rhagdybio bod rhywun yn ennill, ar ôl treth, £29,657 y flwyddyn drwy gydol eu bywyd gweithio. Dyma oedd y cyflog canolrifol yn y DU yn 2023, a 5% ychwanegol.

Cafodd y ffigur hwn ei ddewis ar y sail y dylai cynllun tariffau fod yn gallu digolledu am golledion y rhan fwyaf o bobl. I wneud hynny, dylai seilio'r enillion ar ffigur uwch na'r cyfartalog.

Defnyddir cyflog canolrifol 2023 a 5% ar ben hynny'n gyson am bob blwyddyn o fywyd gweithio rhywun. Mae hyn yn effeithio ar ddyfarniadau Colled Ariannol pobl mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, fe'i defnyddir pryd bynnag yr oedd rhywun yn gweithio. Er enghraifft, i rywun mewn oedran i weithio rhwng y 1980au a'r 1990au, byddai cyflog 2023 yn cael ei ddefnyddio am bob un o'r blynyddoedd gweithio hynny. Fe'i defnyddir hefyd am bob blwyddyn o oedran gweithio rhywun rhwng 16 a 66 oed, er bod cyflogau cyfartalog yn amrywio'n sylweddol yn ôl oed. Er enghraifft, yn 2023 yr enillion net canolrifol i bobl 18-21 oed oedd £17,894.

Mae hanner can mlynedd o enillion blynyddol ar y gyfradd yma'n cyfateb i ffigur enillion gydol oes o £1,482,850. Ni fydd pob dyfarniad Colled Ariannol o dan gynnig craidd y Cynllun yn cyrraedd y swm hwn (mae nifer o resymau am hyn – un rheswm yw na fydd gan flynyddoedd bywyd rhywun cyn cael eu heintio ddyfarniad Colled Ariannol yn gysylltiedig â hwn). Ni thynnir unrhyw symiau allan o'r gwerth blynyddol i gyfrif am y ffaith y gallai rhywun oedd yn gweithio fod wedi gwneud cyfraniadau, o'u cyflog, i gynllun pensiwn. Mae gan bobl heintiedig hawl i'r dyfarniad hwn am bob blwyddyn o'u haint cronig, p'un ai'n gweithio ar y pryd neu beidio, er bod y dyfarniad yn cael ei addasu ar sail faint yr oeddent yn debygol o fod yn gallu gweithio o ystyried eu salwch.

Sut y mae'r dyfarniad Colled Eithriadol yn gweithio

Ar hyn o bryd, os gall person heintiedig ddangos tystiolaeth bod eu henillion coll, naill ai drwy waith cyflogedig neu hunan-gyflogaeth, yn uwch na'r dyfarniad cynnig craidd, gall wneud cais am ddyfarniad Colled Eithriadol.

Ar hyn o bryd cyfrifir gwerth y dyfarniad Colled Eithriadol ar sail **enillion gwirioneddol yn y gorffennol**. Felly, rhaid i rywun sy'n gwneud cais ddangos tystiolaeth o'u henillion yn y gorffennol (e.e. slipiau cyflog neu anfonebau) fel bo'r IBCA yn gallu penderfynu beth fyddai enillion person yn y dyfodol wedi bod heb fynd yn sâl. Mae'r cyfrifiad hwn yn ystyried codiadau cyflog ar sail chwyddiant a hefyd y posibilrwydd y byddai'r person wedi dringo'n uwch yn eu gyrfa.

Os na all rhywun ddangos tystiolaeth o enillion yn y gorffennol, nid ydynt ar hyn o bryd yn gymwys am ddyfarniad Colled Eithriadol drwy'r Cynllun. Mae hyn oherwydd na fyddai gan yr IBCA dystiolaeth er mwyn darogan beth fyddai eu henillion yn y dyfodol wedi bod.

Newid y drefn

Nid yw'r Grŵp Arbenigol Technegol wedi gallu dod o hyd i ffordd o newid y dyfarniad Colled Eithriadol a fyddai'n gweithio gyda chynllun tariffau. **Byddem yn falch iawn o dderbyn ymatebion am sut orau i symud ymlaen ag argymhellion yr Ymchwiliad a pha dystiolaeth y gellid ei chyflwyno i gefnogi hawliad o'r fath.**

Yn benodol, hoffem wybod eich barn am fathau eraill o dystiolaeth y gellid eu cyflwyno i fodloni meini prawf presennol y dyfarniad, a beth allai pobl ei ddangos i'r IBCA os nad oes ganddynt dystiolaeth ysgrifenedig i ddangos enillion uchel ond yn teimlo nad yw'r cynnig

craidd yn darparu'n ddigonol ar gyfer eu hamgylchiadau. Hoffem hefyd wybod eich barn am beth y gellid ei wneud i sicrhau bod unrhyw newid a wneir yn deg i bawb a ddim yn golygu, er enghraifft, ei bod yn haws derbyn dyfarniad gydag un math o gymhwyster neu brofiad proffesiynol nag un arall.

Gallai deall yn fwy manwl beth yn union yw pryderon yr Ymchwiliad gynorthwyo i oleuo eich ymateb.

Mae'r Ymchwiliad yn ystyried dau achos prin gwahanol lle y mae'n poeni na all pobl ddangos tystiolaeth.

Y cyntaf yw: **“Rhywun gyda busnes a aeth i'r wal flynyddoedd yn ôl o ganlyniad uniongyrchol i effeithiau'r haint a / neu'r driniaeth, a heb unrhyw reswm i gadw cofnodion llawn ar gyfer cynllun iawndal ddegawdau yn y dyfodol pryd nad oedd gobaith o hynny'n digwydd ar y pryd.”**

Yr ail amgylchiadau anodd a godir gan yr Ymchwiliad yw'r **“achosion hynny lle y mae'r dystiolaeth yn gryf bod y potensial i ennill mwy na'r enillion cyfartalog yn real, ond bod yr haint neu sgîl-effeithiau ei driniaeth wedi digwydd yn rhy gynnar yn eu bywyd (neu fywyd gwaith) neu yn eu bywyd teuluol i'r person heintiedig fod yn gallu sefydlu'r patrwm o enillion sylweddol sy'n ymddangos i fod yn un o ragofynion hawliad o'r fath”**.

Yn yr achosion hyn, disgwyliwn y byddai'n anodd dangos tystiolaeth ysgrifenedig glir. Fel y [noda'r](#) Ymchwiliad, **“byddai'n anghyffredin i unrhyw dystiolaeth fod ar gael i ddangos, yn ôl beth sy'n debygol, y byddai'r enillion yn uwch – neu'n is – na'r enillion canolrifol”**. Mae cynnig craidd y Cynllun yn digolledu pobl yn barod ar sail enillion net canolrifol a 5% ar ben hynny.

Mae trafferthion asesiadau unigol o dan y Cynllun wedi cael ei gydnabod gan yr Ymchwiliad i Waed Heintiedig yn ei [ail adroddiad interim](#), gan nodi y “dylid osgoi cynllun sy'n darparu asesiadau unigol ar gyfer pob hawlydd sy'n dod gerbron”. Gan hynny mae Rheoliadau 2025 yn nodi bod dyfarniad yn cael ei roi yng nghyswllt cofnod penodol o enillion.

Cwestiynau i ymatebwyr

1. Mewn achosion lle y mae rhywun yn credu y byddent wedi ennill mwy na chyflog rhagdybiol y cynnig craidd (cyflog canolrifol y DU + 5%) pe na byddent wedi cael eu heintio, ond yn methu â phrofi hyn drwy gofnodion cyflog a chofnodion eraill, a oes tystiolaeth (e.e. cymwysterau proffesiynol) y byddai'r IBCA yn ei ystyried wrth gyfrifo dyfarniad Colled Eithriadol?
2. Pe bai newidiadau'n cael eu gwneud i gynnwys mwy o bobl o fewn y dyfarniad, sut allai'r Cynllun sicrhau tegwch wrth drin pobl a fyddai'n methu â dangos y

dystiolaeth ychwanegol a restrir yng nghwestiwn 1 (er enghraifft os nad oeddent yn perthyn i broffesiwn gyda hyfforddiant a chymwysterau)?

3. Pa fath o dystiolaeth y gallai'r IBCA ei ystyried pe bai rhywun yn dweud eu bod wedi ennill mwy na'r hyn y mae'r cynnig craidd yn darparu ar ei gyfer ond oedd heb dystiolaeth ddogfennol mwyach i brofi hynny?

Rhan 6 – Dyfarniadau Atodol ar gyfer Pobl a Effeithiwyd

Crynodeb

Mae'r cynnig atodol yn cynnig dyfarniadau iawndal ychwanegol os nad yw'r cynnig craidd yn adlewyrchu sefyllfa person yn ddigonol. Ar hyn o bryd mae cynnig atodol ar gyfer pobl heintiedig a phobl a effeithiwyd ond maen nhw'n wahanol i'w gilydd. Ar gyfer pobl a effeithiwyd, dim ond cynnig atodol am golled ariannol y mae'r Cynllun yn ei gynnig. Nid yw pobl a effeithiwyd yn gymwys am ddyfarniad Colled Ariannol drwy'r cynnig craidd oni bai eu bod yn ddibynyddion (h.y. plant dan 18 oed neu bartneriaid) i berson heintiedig a fu farw. Mae'r dyfarniad Colled Ariannol atodol yn cynnig iawndal mewn achosion lle'r oedd y person a effeithiwyd yn dibynnu'n ariannol ar y person heintiedig ond ni fyddent yn gymwys yn awtomatig fel dibynnydd o dan y cynnig craidd. Gallai hyn, er enghraifft, fod yn berson a effeithiwyd gydag anabledd sy'n cyfyngu ar eu hannibyniaeth ariannol neu riant oedrannus i berson heintiedig sy'n dibynnu'n ariannol ar eu plentyn.

Roedd Adroddiad Ychwanegol yr Ymchwiliad yn gofyn i'r Llywodraeth ystyried a ddylai cynnig atodol fod ar gael ar gyfer pobl a effeithiwyd, gan awgrymu y gellid gwneud hyn drwy agor ceisiadau ar gyfer dyfarniad atodol am niwed seicolegol difrifol i bobl a effeithiwyd gan y niwed hwn. Cytunodd y Llywodraeth i ymgynghori ar y mater hwn a gofynnodd am gyngor gan y TEG ar sut y gellid gweithredu'r argymhelliad hwn fel rhan o gynllun tariffau.

Mae rhan yma'r ymgynghoriad yn holi barn ynghylch a allai cynnig atodol ehangach yn cynnwys pobl a effeithiwyd weithio, a sut.

Argymhelliad **yr** **Ymchwiliad**

Yr argymhelliad a wnaed yn Adroddiad Ychwanegol yr Ymchwiliad o ran y gofynion tystiolaeth ar gyfer colled ariannol yw:

"Bod y Gweinidog yn ystyried cyflwyno cynnig atodol ar gyfer pobl a effeithiwyd. Gallai hyn gynnwys agor y cynnig atodol ar gyfer niwed seicolegol difrifol i bobl a effeithiwyd. Dylai gynnwys rhieni, plant, brodyr a chwiorydd, partneriaid a gofalwyr, a'u cynrychiolwyr cyfreithiol pe bai'n dymuno, yn yr ystyriaeth hon."

Beth y mae'r argymhelliad hwn yn ei olygu

Roedd argymhelliad yr Ymchwiliad yn gofyn i'r Llywodraeth ystyried a ddylid cynnwys cynnig atodol yn y Cynllun ar gyfer pobl a effeithiwyd gan nodi y gallai hyn gynnwys ei agor i bobl a ddioddefodd niwed seicolegol difrifol. Roedd yr Ymchwiliad yn argymhell cynnwys barn pobl a effeithiwyd a'u cynrychiolwyr cyfreithiol wrth ystyried hyn ac rydym felly'n croesawu eu hymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Ymateb

y

Llywodraeth

Derbyniodd y Llywodraeth argymhelliad yr Ymchwiliad i ymgynghori ar a fyddai'n bosib cyflwyno cynnig atodol i dalu iawndal ychwanegol i bobl a effeithiwyd a ddioddefodd y mathau mwyaf difrifol o niwed.

Rydym felly'n ymgynghori ar a fyddai'n bosib cyflwyno cynnig atodol ar gyfer pobl a effeithiwyd ar sail niwed seicolegol difrifol, fel y mae'r Ymchwiliad wedi'i awgrymu, heb achosi oedi sylweddol i'r broses o dalu iawndal yn gyffredinol.

Roedd yr Ymchwiliad wedi gwneud argymhelliad gwahanol o ran y dystiolaeth yr oedd angen i bobl heintiedig ei ddangos i fod yn gymwys am ddyfarniad atodol am niwed seicolegol difrifol. Mae Rhan 2 yr ymgynghoriad hwn yn cyflwyno ein cynnig ar sut y gallai hyn weithio ar gyfer pobl heintiedig. **Mae'r argymhelliad hwn hefyd yn berthnasol i bobl a effeithiwyd, oherwydd mae'n awgrymu ffordd o ddangos tystiolaeth o niwed seicolegol difrifol, y gofynnodd yr Ymchwiliad yn benodol i ni ei ystyried er mwyn cyflwyno cynnig atodol ar gyfer pobl heintiedig.**

Mae'r argymhelliad, a chyngor y TEG fel ymateb i hynny, yn cael ei ailadrodd isod er mwyn hwylustod, ond gallai ymatebwyr fod eisiau adolygu Rhan 2 hefyd.

"[Rwyf yn argymhell] bod dull y Gwasanaeth Seicolegol Gwaed Heintiedig yn cael ei fabwysiadu fel bod diagnosis gan weithiwr seiciatrig proffesiynol a barn ar y cyd yr holl weithwyr seicolegol a chwnsela cymwysedig yn cael eu derbyn fel tystiolaeth ddigonol o niwed seicolegol difrifol ac y dylai tystiolaeth o'r fath gymhwyso person ar gyfer dyfarniad Cyflwr Iechyd Difrifol atodol heb fod hefyd angen dangos cyfnod o driniaeth iechyd meddwl eilaidd dan law ymgynghorydd neu asesiad / triniaeth fel claf mewnol."

Nid yw'r TEG wedi gallu diffinio meini prawf ar gyfer dyfarniad sy'n seiliedig ar farn ar y cyd heb fod angen cyflwyno asesiadau seicolegol clinigol ychwanegol a newydd ar gyfer pob ymgeisydd unigol, sydd ddim yn bosib mewn cynllun seiliedig ar dariffau. Rhoddir y rhesymau am hyn isod:

Eglurodd y Gwasanaeth Seicolegol Gwaed Heintiedig (IBPS) fod 'barn ar y cyd' yn rhoi hanes iechyd meddwl rhywun gan edrych ar y ffactorau corfforol, seicolegol a chymdeithasol perthnasol. Mae'n ystyried eu hanes, beth sy'n eu gwneud yn fregus, cryfderau a'u hamgylchiadau presennol.

Yn ôl cyngor yr IBPS i'r TEG, er y gall barn ar y cyd helpu i dywys triniaeth rhywun, ar ei ben ei hun ni all ddarparu marcwyr neu nodweddion clir a dibynadwy o ba mor ddifrifol yw effaith y niwed seicolegol ac nid ydynt ychwaith yn asesu i ba raddau y mae'r niwed seicolegol yn effeithio ar allu rhywun i ennill neu ofalu amdanynt eu hunain. Dim ond asesiad seicolegol a allai wneud hyn.

Grŵp

Arbenigol

Technegol

Rhoddir mwy o fanylion am gyngor y Grŵp Arbenigol Technegol (TEG) yn Rhan 2 oherwydd mae'n berthnasol i bobl heintiedig hefyd. Eu cyngor oedd, ar sail ymgysylltu â'r

Gwasanaeth Seicolegol Gwaed Heintiedig, y gellir defnyddio 'barn ar y cyd' i dywys a goleuo dewis o ymyriadau therapiwtig ar gyfer niwed seicolegol (a allai fod yn wahanol fathau o therapi siarad, er enghraifft). Fodd bynnag, nid ydynt yn cynnwys marcwyr dibynadwy a chyson o ddifrifoldeb y niwed hwnnw ac, felly, ni fyddent yn cynnwys asesiad o allu rhywun i ennill neu ofalu amdanynt eu hunain.

Oherwydd y cyfyngiad hwn, nid yw'r TEG wedi gallu argymhell dull o ddangos cymhwyster ar sail barn ar y cyd heb fod hefyd angen asesiad clinigol newydd ac ychwanegol gan weithiwr seicolegol a / neu gwnselydd proffesiynol – ar gyfer pobl heintiedig neu bobl a effeithiwyd.

Oherwydd hyn, nid ydym wedi dod o hyd i ffordd o weithredu cynnig atodol ar gyfer niwed seicolegol wedi'i ddioddef gan bobl a effeithiwyd a fyddai'n osgoi bod angen asesiad meddygol unigol ar gyfer pob person a effeithiwyd a fyddai eisiau hawlio. Cynigiwn ffordd, yn Rhan 2, o wneud asesiadau meddygol ar gyfer pobl heintiedig ond ni chredwn y gellid ehangu hyn i gynnwys pobl a effeithiwyd. Rhoddir y rhesymau am hyn nes ymlaen o dan 'Cynnig' yn y rhan yma.

Y dull presennol

Ar hyn o bryd, ar gyfer pobl gymwys a effeithiwyd, mae'r Cynllun yn rhoi dyfarniadau craidd ar gyfer dau, tri neu bedwar o'r pum categori dyfarniad, gan ddibynnu ar eu hamgylchiadau. Mae pob person cymwys a effeithiwyd yn derbyn dyfarniadau **Anaf** ac **Effaith Gymdeithasol**, mae rhai pobl a effeithiwyd yn derbyn dyfarniad **Ymreolaeth**, ac mae pobl a effeithiwyd y rhagdybiwn eu bod yn ddibynnol ar berson heintiedig hefyd yn derbyn dyfarniad **Colled Ariannol** os yw'r person heintiedig hwnnw neu honno wedi marw.

Mae yna hefyd gynnig atodol presennol ar gyfer pobl a effeithiwyd, sydd wedi'i gyfyngu i'r dyfarniad Colled Ariannol.

Fel rhan o'r cynnig craidd ar gyfer pobl a effeithiwyd, rhagdybiwn fod rhai pobl a effeithiwyd wedi dibynnu'n ariannol ar y person (neu bobl) heintiedig y mae ganddynt gysylltiad â nhw. Os yw'r person heintiedig wedi marw, gallai fod gan y bobl berthnasol a effeithiwyd hawl i ddyfarniad Colled Ariannol i adlewyrchu eu dibyniaeth. Yn benodol, mae gan blant sydd neu oedd o dan 18 oed, a phartneriaid, hawl i ddyfarniad o'r fath. Nid oes neb arall a effeithiwyd yn derbyn dyfarniad Colled Ariannol awtomatig fel rhan o'u hawliad craidd.

Mae hyn yn golygu bod y cynnig atodol i bobl a effeithiwyd yn gadael i berson a effeithiwyd sydd *ddim* yn bodloni'r meini prawf hynny ddangos eu bod yn ddibynnol ar berson heintiedig a thrwy hynny dderbyn dyfarniad Colled Ariannol. Er enghraifft, gallai hyn fod yn blentyn i berson heintiedig gydag anabledd sy'n golygu y byddent yn ddibynnol ar eu rhiant ar ôl 18 oed, neu riant oedrannus sy'n dibynnu'n ariannol ar eu plentyn.

Nid yw'r cynnig atodol i bobl a effeithiwyd ar gael ar gyfer unrhyw gategori dyfarniad arall ar hyn o bryd.

Cynnig

Oherwydd nad yw'r TEG wedi gallu meddwl am ffordd o gyflwyno cynnig atodol pellach ar gyfer pobl a effeithiwyd na fyddai'n golygu gorfod gwneud asesiad unigol o bob ymgeisydd, **byddem yn falch iawn o dderbyn ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cynnig tystiolaeth o sut i wneud hyn a gallu parhau i dalu iawndal yn amserol fel rhan o gynllun tariffau.** Byddem hefyd yn falch o wybod pwy ddylai fod yn gymwys am hyn, a pha dystiolaeth y gallent ei ddangos.

I helpu ymatebwyr i ystyried y materion hyn, mae'r rhan yma'n nodi'r ffactorau a ystyriwyd wrth gyrraedd ein casgliad cychwynnol.

Yn gyntaf oll, rydym yn disgwyl y bydd llawer mwy o bobl a effeithiwyd na phobl heintiedig sy'n gymwys am iawndal. Oherwydd bod y Cynllun yn talu iawndal i ystod o bobl sydd â pherthynas gyda pherson heintiedig (fel aelodau teulu a phartneriaid), gwyddom y bydd pobl a effeithiwyd wedi profi niwed mewn nifer o wahanol ffyrdd. Pe bai asesiadau unigol yn ofynnol, gallai prosesu ceisiadau ar gyfer y cynnig atodol i bobl a effeithiwyd fod yn araf. Mae hyn oherwydd yr amser y byddai'n ei gymryd i fynd drwy asesiad unigol o'i gymharu â chynllun symlach, ehangach seiliedig ar dariffau a allai gyfrif am yr holl amgylchiadau hyn. Ein bwriad yw talu taliadau iawndal mor gyflym ag y bo modd ac, felly, rydym wedi cytuno i ymgynghori ar y sail na fydd unrhyw newidiadau i'r Cynllun **yn arafu pa mor gyflym y mae taliadau iawndal yn cael eu gwneud.**

Am y rhesymau hyn, rydym yn holi barn ynghylch a ddylid cyflwyno cynnig atodol gwahanol, a sut Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn gwybod a allai gael ei ddylunio ar gyfer **grwpiau penodol o bobl a effeithiwyd**, gydag aelodaeth o'r grŵp yn cael ei ddilysu heb fod angen asesiadau unigol gor-fanwl.

Pe bai'r dull hwn yn cael ei weithredu o ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn, byddai angen i'r IBCA fod yn gallu defnyddio'r dystiolaeth bresennol i benderfynu a fyddai person penodol yn perthyn i un o'r grwpiau hyn neu beidio. Byddai angen asesu aelodaeth yn erbyn meini prawf gwrthrychol y gellid eu dilysu, yn defnyddio tystiolaeth a fyddai'n bodoli'n barod yn lle dibynnu ar yr IBCA i wneud asesiadau newydd a pheidio ag arafu'r broses o dalu iawndal yn amserol.

Un enghraifft o grŵp o'r fath fyddai pobl a effeithiwyd gan waed heintiedig pan oeddent yn iau nag oedran penodol (18 er enghraifft). Gallai'r IBCA ddefnyddio'r dystiolaeth oedd yn bodoli'n barod i benderfynu oedran person a effeithiwyd pan heintwyd eu person agos.

Cwestiynau i ymatebwyr

1. Gan ystyried y ffactorau a ddisgrifiwn yn y rhan yma, gan gynnwys bod angen osgoi'r math o asesiadau unigol hirfaith ac ymwthiol y mae'r Ymchwiliad wedi cynghori y dylid eu hosgoi, sut fydddech chi'n argymhell creu math o ddyfarniad atodol ar gyfer pobl a effeithiwyd a fyddai'n golygu y gellid parhau i dalu iawndal yn amserol fel rhan o gynllun tariffau?
2. Ydych chi o blaid darparu cynnig atodol gwahanol yn lle drwy asesiad unigol, a fyddai'n talu dyfarniadau uwch i bawb mewn grŵp penodol, heb fod angen iddynt brofi eu bod yn gymwys ar wahân i fod yn perthyn i'r grŵp hwnnw? [YDW / NAC YDW]
3. Os ydych o blaid hyn, pa grwpiau penodol o bobl a effeithiwyd y credwch ddylai fod yn gymwys am ddyfarniad atodol ar y sail yma?
4. Pa dystiolaeth sy'n bodoli'n barod allai'r IBCA ei defnyddio i benderfynu bod ymgeiswyr yn perthyn i'r grwpiau hyn?

Rhan 7 – Ymchwil Anfoesol

Crynodeb

Mae rhai pobl heintiedig wedi dioddef o ganlyniad i fod yn rhan o arferion ymchwil anfoesol hanesyddol.

Mae'r Cynllun yn darparu iawndal i bobl heintiedig sydd wedi dioddef o ganlyniad i ymchwil anfoesol er mwyn cydnabod hyn. Mae'n gwneud hyn drwy dalu iawndal ychwanegol i bobl gymwys am golli ymreolaeth o ganlyniad i ddioddef ar ôl bod yn rhan o ymchwil anfoesol. Ar hyn o bryd mae pobl heintiedig yn gymwys am ddyfarniad Ymchwil Anfoesol o £10,000 os cawsant driniaeth, rhwng 1974 a 1984, am anhwylder gwaedu yn un o gyfres benodol o sefydliadau, neu os oeddent yn rhan o ymchwil a wnaed dan arweiniad Dr John Craske. Mae dyfarniad uwch o £15,000 ar gael i bobl oedd yn fyfyrwyr yng Ngholeg Lord Mayor Treloar ar unrhyw adeg rhwng 1970 a 1983.

Mae Adroddiad Ychwanegol yr Ymchwiliad wedi gwneud cyfres o argymhellion am y dyfarniad Ymchwil Anfoesol. Gofynnodd i ni edrych eto ar y dystiolaeth sydd angen i bobl ei chyflwyno i brofi eu bod yn gymwys am y dyfarniadau, a gwerth y dyfarniadau a gynigir drwy'r Cynllun. Gofynnodd i ni hefyd ystyried sut yr ydym wedi diffinio ymchwil anfoesol i bwrpas y Cynllun. Yn unol ag argymhelliad yr Ymchwiliad, rydym wedi ymrwymo i ymgynghori ar y ffordd orau ymlaen o ddarparu dyfarniad sy'n gofyn am y dystiolaeth leiaf bosib, lleihau oedi a sicrhau cysondeb ar draws y meini prawf dyfarnu.

Mae'r rhan yma'n holi barn am faes hwn y cynnig.

Argymhelliad yr Ymchwiliad

Argymhelliad Adroddiad Ychwanegol yr Ymchwiliad ar ymchwil anfoesol yw:

- (a) Os oes dystiolaeth bod unigolyn wedi dioddef oherwydd arferion ymchwil anfoesol, y dylid awdurdodi'r IBCA i wneud dyfarniad arferion ymchwil anfoesol i'r unigolyn dan sylw.*
- (b) Wrth ystyried y dystiolaeth, bod yr IBCA yn defnyddio'r diffiniad ehangach o ymchwil a eglurir ym mhennod Ymchwil Anfoesol Adroddiad Ychwanegol yr Ymchwiliad i Waed Heintiedig.*
- (c) Bod y Gweinidog yn ystyried a ddylid, yn enw cyfiawnder, cynyddu'r £10,000 (£15,000 ar gyfer disgyblion Treloar) a phenderfynu hefyd pa swm yn ei farn ef a fyddai'n cydfynd orau â syniad y cyhoedd o gyfiawnder a thegwch i'w dalu i unigolyn oedd yn rhan o waith ymchwil na gydsyniodd yn wybodus iddo.*

Beth y mae'r argymhelliad hwn yn ei olygu

Mae Adroddiad Ychwanegol yr Ymchwiliad yn awgrymu bod diffiniad presennol y Cynllun o 'ymchwil' yn rhy gul, ac os oes tystiolaeth bod rhywun wedi dioddef drwy gymryd rhan mewn unrhyw fath o ymchwil anfoesol, y dylai'r person hwnnw neu honno gael y dyfarniad.

Mae'r Ymchwiliad hefyd yn awgrymu bod y Llywodraeth yn ystyried cynyddu'r symiau dyfarniad presennol ar gyfer ymchwil anfoesol.

Ymateb y Llywodraeth

Wrth ymateb i Adroddiad Ychwanegol yr Ymchwiliad yng Ngorffennaf 2025, roeddem yn ymrwymo i ymgynghori ar y ffordd orau o gynnig dyfarniad i ddioddefwyr arferion ymchwil anfoesol sy'n gofyn am y dystiolaeth leiaf bosib, lleihau oedi a sicrhau cysondeb ar draws y meini prawf dyfarnu

Rydym yn cydnabod bod yr ymchwil anfoesol a ddisgrifiwyd gan yr Ymchwiliad wedi achosi niwed sylweddol i bobl heintiedig a'u hanwyliaid. Rydym hefyd yn deall ein bod wedi gofyn i bobl ymgysylltu â ni ar y mater hwn o'r blaen, ac y gallai dwyn y profiadau hyn i gof eto achosi trallod a chreu mwy o drawma i rai pobl. Y tro diwethaf i ni ymgysylltu'n uniongyrchol â'r gymuned gwaed heintiedig, roeddem yn cydnabod na fydd gan lawer o bobl efallai'r cofnodion neu'n gallu dangos tystiolaeth o fod wedi bod yn rhan o ymchwil anfoesol. Rydym yn ymrwymedig o hyd i sicrhau na fydd pobl o dan unrhyw anfantais os na fedrant ddangos tystiolaeth o ddioddef ar ôl bod yn rhan o brosiect ymchwil anfoesol penodol. Mae'r newidiadau a gynigiwn wedi eu dylunio gyda'r ymrwymiad hwn mewn cof.

Dyluniad presennol y Cynllun

Sut y mae'r dyfarniad craidd yn gweithio

Mae pob person heintiedig yn derbyn dyfarniad ymreolaeth fel rhan o'u hawliad iawndal craidd. Mae'r iawndal hwn am eu dioddefaint o ganlyniad i'w haint, gan gynnwys ei effaith ar eu teulu a'u bywyd preifat. Mae rhai enghreifftiau o hyn yn cynnwys priodas neu bartneriaeth yn chwalu, neu golli cyfle i gael perthynas o gwbl, neu golli cyfle i gael plant. Mae'r dyfarniad ymreolaeth craidd am heintiau cronig rhwng **£50,000 - £70,000**, fydd yn cael ei roi ochr yn ochr â'r iawndal craidd ar gyfer y categorïau dyfarniad eraill (fel colled ariannol a gofal). Mae faint o iawndal dyfarniad ymreolaeth craidd y mae person heintiedig yn ei gael yn dibynnu ar ba mor ddifrifol yw eu haint, oherwydd disgwylir y byddai hyn yn gwneud gwahaniaeth i faint o ymreolaeth a gollwyd.

Sut y mae'r dyfarniad Ymchwil Anfoesol yn gweithio:

Ar hyn o bryd mae'r Cynllun yn rhoi chwydd-dâl i ddyfarniad ymreolaeth craidd pobl heintiedig cymwys. Mae'r chwydd-dâl ar gael drwy'r cynnig atodol ac yn cael ei dalu i gydnabod dioddefaint drwy gymryd rhan mewn ymchwil anfoesol o ganlyniad i'w haint.

Cafodd gwerthoedd y dyfarniadau presennol o £10,000 a £15,000 i ddioddefwyr ymchwil anfoesol eu hargymell gan Syr Robert Francis. Fe wnaethom dderbyn ei argymhellion ar ymchwil anfoesol yn llawn, gan gynnwys i ymgysylltu â'r gymuned gwaed heintiedig cyn

llunio barn derfynol am bwy ddylai fod yn gymwys, a gwnaethom hyn ar ddiwedd 2024. Ar ôl ymgysylltu, mae'r dyfarniadau isod ar gael yn yr amgylchiadau canlynol:

- £10,000 i bobl heintiedig (neu eu hystadau) a dderbyniodd driniaeth mewn canolfan driniaeth restredig neu a gymrodd ran yn un o astudiaethau Dr Craske rhwng 1974 a 1984.
- Bydd £15,000 ar gael i bob person heintiedig (neu eu hystadau) a fynychodd Goleg Lord Mayor Treloar rhwng 1970 a 1983 yn gynwysedig ac y gellir felly rhagdybio eu bod wedi cymryd rhan mewn ymchwil anfoesol pan oeddent yn y Coleg.

Ar hyn o bryd, os bydd person heintiedig yn gymwys am y ddau ddyfarniad Ymchwil Anfoesol, bydd yn derbyn y dyfarniad mwyaf.

Gallai hefyd fod yn ddefnyddiol i ymatebwyr ddeall peth o'r cyd-destun y tu ôl i ddyluniad presennol y dyfarniadau er mwyn gallu rhoi barn am a ddylai newid neu beidio, a sut. Ehangir ar hyn isod.

Diffinio 'ymchwil'

Bwriad y gofynion cymhwysedd presennol ar gyfer dyfarniadau Ymchwil Anfoesol y Cynllun oedd darparu ar gyfer pob achos hysbys o ymchwil anfoesol ar bobl heintiedig. Pan roddodd gyngor i'r Llywodraeth i'w chynorthwyo i ddatblygu Rheoliadau 2025, lluniodd y Grŵp Arbenigol blaenorol ddiffiniad oedd yn gyson ag Adroddiad yr Ymchwiliad: *"Mae'r meini prawf yr argymhellwn eu defnyddio i asesu cymhwysedd yn ymwneud ag astudiaethau a newidiodd driniaeth cleifion a heb y cydsyniad gwybodus llawn y dewisodd gyfranogwyr dderbyn y risgiau ar ei sail."*

Fodd bynnag, lleisiodd rai pobl bryder na fydd y meini prawf cymhwysedd a ddefnyddiwyd yn Rheoliadau 2025 efallai'n cynnwys pawb sy'n bodloni'r meini prawf hyn. Mae ein cynnig yn cyflwyno opsiwn y credwn fydd yn ateb y pryderon hyn gan nodi'n glir bod pawb a ddylai dderbyn y dyfarniad yn gallu gwneud hynny.

Penderfynu cymhwysedd

Rydym wedi defnyddio triniaeth mewn un o nifer o ganolfannau haemoffilia penodol i benderfynu hawl i'r dyfarniad. Dewiswyd y dull hwn oherwydd yn aml iawn nid oes tystiolaeth uniongyrchol bod rhywun wedi ymuno ag astudiaeth, ond mae'n llawer mwy tebygol bod ganddynt dystiolaeth o driniaeth yn y ganolfan lle y gwnaed yr astudiaeth. Byddai gofyn yn benodol am dystiolaeth uniongyrchol felly'n debygol o eithrio nifer fawr o bobl a ddylai fod â hawl i iawndal drwy'r dyfarniadau hyn.

Mae casglu tystiolaeth o ymchwil anfoesol yn aml yn anodd. Mae cofnodion meddygol unigol a chofnodion ymchwil o'r cyfnod perthnasol yn aml yn anghyflawn, bwriadau'r treialon neu ddewisiadau clinigol heb eu cofnodi'n gyson, a'r hyn a ddisgrifiwyd fel ymchwil yn amrywio o un ysbyty i'r llall. Dyluniwyd y gofynion cymhwysedd ar gyfer dyfarniadau Ymchwil Anfoesol y Cynllun felly i gynnwys pawb a dderbyniodd driniaeth mewn

canolfannau haemoffilia ymchwil dwys, neu a fynychodd Goleg Treloar, rhwng y dyddiadau penodedig.

Cynniq

Cynigiwn ehangu cymhwysedd ar gyfer dyfarniadau Ymchwil Anfoesol i gynnwys pawb a heintiwyd ac a dderbyniodd driniaeth am anhwylder gwaedu yn y DU cyn 1985. Cynigiwn hyn fel y ffordd orau o sicrhau na fydd neb a ddioddefodd drwy gymryd rhan mewn ymchwil anfoesol yn cael ei atal rhag derbyn dyfarniad iawndal, hyd yn oed os na fedrant ddangos unrhyw dystiolaeth hanesyddol.

Byddem yn falch iawn o dderbyn barn ymatebwyr ynghylch a ddylem feddwl am ffordd wahanol o gyfrifo gwerth priodol y dyfarniadau.

Cymhwysedd:

I sicrhau y gall pawb a ddylai fod yn gymwys am y dyfarniad hwn wneud cais heb orfod dangos tystiolaeth hanesyddol neu fynd drwy broses anodd efallai o brofi cymhwysedd uniongyrchol drwy gofnodion meddygol, cynigiwn **ehangu cymhwysedd i gynnwys pawb a heintiwyd a dderbyniodd driniaeth am anhwylder gwaedu yn y DU cyn 1985**. Byddai hyn yn cynnwys pobl heintiedig a gafodd gam-ddiagnosis o anhwylder gwaedu ond a dderbyniodd driniaeth fel pe bai ganddynt yr anhwylder.

Wrth gyflwyno'r meini prawf cymhwysedd hyn, ein bwriad yw cydnabod **pawb** a ddioddefodd drwy gymryd rhan mewn ymchwil anfoesol. Dyma'r ffordd orau y gallwn ddod o hyd iddi o ymateb i farn yr Ymchwiliad bod arferion anfoesol wedi digwydd nid yn unig mewn canolfannau ymchwil dwys ond ar draws unedau haemoffilia eraill hefyd, ac fel rhan o driniaeth arferol rhywun. Dyma hefyd y ffordd orau y gallwn ddod o hyd iddi o osgoi eithrio pobl yn ddjarwybod oherwydd na fedrant ddangos tystiolaeth glir o gysylltiad i ganolfan neu dreial penodol, a dylai hefyd gyfrif am unrhyw ymchwil a allai fod wedi digwydd y tu allan i'r achosion a restrir yn ein diffiniad gwreiddiol.

Bwriadwn i'r dull clir a safonol hwn hefyd leihau'r baich ar bobl heintiedig cymwys i ddangos tystiolaeth. Dylai sicrhau na fydd anfantais i bobl na fedrant ddangos tystiolaeth o ddioddef drwy gymryd rhan mewn ymchwil anfoesol oherwydd, er enghraifft, bylchau yn eu cofnodion meddygol.

Bydd y dull hwn yn arwain at wneud rhai pobl yn gymwys am y dyfarniad Ymchwil Anfoesol na chawsant niwed o ymchwil anfoesol. Er hynny, credwn fod hyn yn well nag eithrio pobl oedd yn rhan o ymchwil anfoesol ond sy'n methu â dangos tystiolaeth glir o hynny.

Swm Dyfarniad:

Nid yw'r dyfarniadau Ymchwil Anfoesol yn digolledu am effeithiau seicolegol a chorfforol ymchwil neu driniaeth – mae'r rhain yn cael eu digolledu'n barod drwy'r dyfarniad Ymreolaeth. Fodd bynnag, mae'r dyfarniadau Ymchwil Anfoesol yn digolledu am fynd yn erbyn hawl person heintiedig i gydsynio i ymchwil anfoesol. **Nodwn adborth y gymuned,**

gan gynnwys i'r Ymchwiliad, ar werth y dyfarniadau, a byddem yn croesawu adborth sy'n cynnig ffyrdd eraill o ddylunio a chyfrifo dyfarniad i adlewyrchu arferion ymchwil anfoesol.

Dyfarniad Ymchwil Anfoesol Treloar:

Cynigiwn fod dyfarniad Ymchwil Anfoesol Treloar yn cael ei ddarparu i bobl gymwys ar ben y dyfarniad Ymchwil Anfoesol. Byddent felly'n derbyn y ddau ddyfarniad. Roedd myfyrwyr Treloar yn rhan o ymchwil anfoesol unigryw a lefel uwch, yn aml iawn dros gyfnodau estynedig, mewn lleoliad sefydliadol lle'r oeddent yn arbennig o fregus. Cynigiwn fod y cyd-destun unigryw yma'n gofyn am gydnabyddiaeth ychwanegol ar wahân i'r dyfarniad Ymchwil Anfoesol cyffredinol.

Cwestiynau i ymatebwyr:

1. Ydych chi'n cytuno y dylai pob person heintiedig a dderbyniodd driniaeth am anhwylder gwaedu yn 1984 neu cyn hynny yn y DU fod yn gymwys am ddyfarniad Ymchwil Anfoesol heb orfod cyflwyno tystiolaeth bellach?
2. Ydych chi'n cytuno, o ystyried amgylchiadau penodol y myfyrwyr yn Nhreloar, y byddai'n briodol eu bod yn derbyn y ddau ddyfarniad?
3. Pa ddull allai'r Llywodraeth ei ddefnyddio i benderfynu gwerth priodol ar gyfer y dyfarniad Ymchwil Anfoesol?

Rhan 8 – Materion Ychwanegol

1. A oes materion eraill yr hoffech eu codi am y Cynllun sydd heb eu hystyried yn barod gan yr Ymchwiliad wrth baratoi ei Adroddiad Ychwanegol ar iawndal?

Hysbysiad Preifatrwydd

Eich Data

Pwrrpas

Mae'r ymgynghoriad hwn yn casglu data personol a barn y cyhoedd er mwyn goleuo'r gwaith o ddatblygu polisi cyhoeddus.

Byddwn yn defnyddio eich data i gadarnhau eich barn am y cynigion polisi a'r materion budd cyhoeddus a godir yn yr ymgynghoriad hwn. Bydd eich data hefyd yn cael ei ddefnyddio i werthuso effeithiolrwydd y broses ymgynghori, drwy ystyried ymateb y sector, unigolion a sefydliadau yn ôl maint / nifer, maes a phersbectif.

Y data

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am ychydig o ddata personol i adnabod: natur budd person yn yr Ymchwiliad i Waed Heintiedig a hefyd, lle bo'n berthnasol, gwybodaeth iechyd sylfaenol am y math o haint. Byddwn ond yn prosesu eich cyfeiriad IP lle bo angen hynny i redeg yr ymgynghoriad yn dechnegol. Gofynnwn am farn personol drwy gydol yr ymgynghoriad.

Byddwn hefyd efallai'n prosesu gwybodaeth fywgraffiadol ychwanegol am ymatebwyr neu drydydd partïon os gwirfoddolir y wybodaeth yma, a gallai hynny hefyd gynnwys data sensitif. Mae'r data personol sensitif y byddwn efallai'n ei brosesu'n cynnwys: hil neu darddiad ethnig; cred grefyddol neu athronyddol; iechyd; data ar fywyd rhywiol person; a data ar dueddiad rhywiol person.

Sail gyfreithiol prosesu'r data

Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data personol yw bod ei angen er mwyn perfformio tasg sy'n cael ei chyflawni er budd y cyhoedd neu er mwyn ymarfer awdurdod swyddogol rheolwr y data. Y dasg yn yr achos hwn yw ymgynghori ar bolisiâu neu gynigion neu gasglu barn er mwyn datblygu polisiâu effeithiol a da.

Data personol sensitif yw data personol sy'n datgelu tarddiad hil neu ethnig, barn wleidyddol, cred grefyddol neu athronyddol, data iechyd neu ddata'n ymwneud â bywyd rhywiol person naturiol neu dueddiad rhywiol.

Y sail gyfreithiol dros brosesu eich data personol sensitif yw bod angen gwneud hyn am resymau budd cyhoeddus sylweddol i'r pwrpas o ymarfer swyddogaeth y Goron, un o Weinidogion y Goron, neu un o adrannau'r llywodraeth. Y swyddogaeth yw ymgynghori ar bolisiau neu gynigion, neu gasglu data barn, er mwyn datblygu polisiau effeithiol a da.

Derbynyddion

Lle bo pobl yn cyflwyno ymateb, byddwn efallai'n cyhoeddi eu hymateb yn ddienw.

Lle bo'n briodol, byddwn yn cyhoeddi ymatebion a gyflwynir gan sefydliadau neu gynrychiolwyr sefydliadau'n llawn.

Byddwn efallai'n rhannu'r data â swyddogion mewn cyrff cyhoeddus eraill i helpu i ddatblygu polisi.

Oherwydd y byddwn yn storio eich data personol ar ein seilwaith TG, bydd yn cael ei brosesu gan ein proseswyr data sy'n darparu gwasanaethau fel rheoli'r ymgynghoriad, e-bost, a rheoli a storio dogfennau.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn defnyddio trydydd parti i'n helpu i gasglu a phrosesu'r ymatebion ac felly bydd eich data'n cael ei rannu â nhw. Mae proseswyr data wedi eu rhwymo gan gontract ac ond yn gallu prosesu data ar ein cyfarwyddyd.

Gallwn rannu eich data personol lle bo'n gyfreithiol ofynnol i ni wneud, er enghraifft wrth ymateb i gais o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, ond byddwn ond yn gwneud hyn os na fyddai'n mynd yn groes i'ch hawliau o dan y gyfraith diogelu data.

Cadw eich data

Mae gwybodaeth a gyhoeddwyd fel arfer yn cael ei chadw am gyfnod amhenodol ar y sail ei bod o werth hanesyddol. Byddai hyn yn cynnwys, er enghraifft, data personol am gynrychiolwyr sefydliadau.

Byddwn yn cadw data personol a roddir wrth ymateb i'r ymgynghoriad hwn mewn ffurf adnabyddus am 12 mis ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben.

Eich hawliau

- Mae gennych hawl i ofyn am wybodaeth am sut y prosesir eich data personol ac i ofyn am gopi o'r data personol hwnnw.

- Mae gennych hawl i ofyn bod unrhyw anghywirdeb yn eich data personol yn cael ei gywiro'n ddioed.
- Mae gennych hawl i ofyn am wneud unrhyw ddata personol anghyflawn yn gyflawn, gan gynnwys drwy ddatganiad atodol.
- Mae gennych hawl i ofyn i ni ddileu eich data personol os nad oes cyfiawnhad mwyach dros ei brosesu.
- Mae gennych hawl mewn rhai amgylchiadau (er enghraifft lle mae cywirdeb yn cael ei herio) i ofyn i ni gyfyngu ar brosesu eich data personol.
- Mae gennych hawl i wrthwynebu i brosesu eich data personol.

Am fwy o fanylion am eich hawliau gwybodaeth, ewch i wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn <https://cy.ico.org.uk/> Mae'ch Data Chi'n Cyfrif.

Trosglwyddo Rhyngwladol

Oherwydd bod eich data personol yn cael ei storio ar ein seilwaith TG, a'i brosesu gan ein proseswyr data, gall gael ei drosglwyddo a'i storio'n ddiogel y tu allan i'r DU. Os felly bydd yn cael ei ddiogelu'n gyfreithiol a chyfwerth drwy benderfyniad digonolrwydd, neu Gytundeb Trosglwyddo Data Rhyngwladol.

Manylion Cyswllt

Y rheolydd data ar gyfer eich data personol yw Swyddfa'r Cabinet. Manylion cyswllt y rheolydd data yw:

Swyddfa'r	Cabinet
70	Whitehall
Llundain	
SW1A	2AS

neu 0207 276 1234, neu [Cysylltu â Swyddfa'r Cabinet](#).

Manylion cyswllt Swyddog Diogelu Data'r rheolydd data yw: dpo@cabinetoffice.gov.uk.

Mae'r Swyddog Diogelu Data'n rhoi cyngor ac yn monitro defnydd Swyddfa'r Cabinet o wybodaeth personol yn annibynnol.

Cwynion

Os credwch fod eich data personol wedi cael ei gamddefnyddio neu gam-drin, gallwch gwyno i'r Comisiynydd Gwybodaeth, sy'n rheoleiddiwr annibynnol.

Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer
SK9 5AF

neu 0303 123 1113, neu icocasework@ico.org.uk.

Ni fydd unrhyw gŵyn a wneir i'r Comisiynydd Gwybodaeth yn rhagfarnu eich hawl i geisio iawn cyfreithiol drwy'r llysoedd.